# Cynllun Bro Aberteifi

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Bro Aberteifi
# Cynnwys


Rhagair

Prosiectau Allweddol

1. Cyflwyniad

    1.1 Trosolwg
    1.2 Ynghylch Aberteifi
    1.3 Data Allweddol ar gyfer Aberteifi
    1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19
    1.5 Teithio a Chysylltedd
    1.6 Ystadegau

2. Cynllun Bro

    2.1 Cyd-destun

        2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill
        2.1.2 Cyswllt â Pholisi
        2.1.3 Themâu Cynllun Bro Ceredigion
        2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant
        2.1.5 Diben a Budd y Cynllun

    2.2 Dull

        2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro
        2.2.2 Gweithredu Cymunedol
        2.2.3 Adborth y Gymuned
        2.2.4 Ymatebion

3. Gweledigaeth

    3.1 Gweledigaeth a Strategaeth
    3.2 Pwyntiau Ffocws
    3.3 Blaenoriaethau

4. Themâu ac Amcanion

    4.1 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

    4.2 Llesiant

        4.2.1 Trosolwg
        4.2.2 Iechyd a Llesiant
        4.2.3 Hygyrchedd
        4.2.4 Teithio llesol
        4.2.5 Trafnidiaeth
        4.2.6 Cyfleusterau Cyhoeddus
        4.2.7 Cymuned
        4.2.8 Gweithredoedd
        4.2.9 Camau Gweithredu
        4.2.10 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau

4.3 Creu Lleoedd

    4.3.1 Trosolwg
    4.3.2 Darpariaeth Gymunedol
    4.3.3 Mannau Gwyrdd
    4.3.4 Cyfleoedd Datblygu
    4.3.5 Gwelliannau i'r Stryd Fawr
    4.3.6 Camau Gweithredu
    4.3.7 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau

4.4 Treftadaeth a Diwylliant

    4.4.1 Trosolwg
    4.4.2 Y Gymraeg
    4.4.3 Cyd-destun Hanesyddol
    4.4.4 Camau Gweithredu
    4.4.5 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau

4.5 Yr Economi

    4.5.1 Trosolwg
    4.5.2 Yr Economi
    4.5.3 Busnesau lleol
    4.5.4 Twristiaeth
    4.5.5 Hyrwyddo
    4.5.6 Camau Gweithredu
    4.5.7 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau

4.6 Yr Amgylchedd

    4.6.1 Trosolwg
    4.6.2 Yr Amgylchedd Morol a Llifogydd
    4.6.3 Yr amgylchedd Naturiol
    4.6.4 Cynaliadwyedd
    4.6.5 Camau Gweithredu
    4.6.6 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau

# Cynllun Bro Aberteifi
# Rhagair

Saif tref hanesyddol Aberteifi ar arfordir gorllewinol Cymru ac ym mhen mwyaf deheuol sir Ceredigion, ar y ffin â Sir Benfro. Mae ganddi boblogaeth o ryw 4,216 (cyfrifiad 2021), a gyfoethogir ymhellach gan yr aneddiadau cyfagos – y mae Aberteifi yn Ganolfan Gwasanaethau Lleol ar eu cyfer. Mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r dref yn cynnwys tair ward ar Gyngor Tref

Aberteifi: Mwldan, Teifi a Rhyd-y-fuwch. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i lywodraeth leol yn 2022, cynrychiolir y dref gan ddau aelod lleol ar Gyngor Sir Ceredigion: mae un yn cynrychioli ward Mwldan ac un yn cynrychioli ward Teifi (wardiau Teifi a Rhyd-y-fuwch gyda'i gilydd). Roedd ward gyfagos Llandudoch yn rhan o Geredigion tan 2003, pan gafodd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Penfro. Serch hynny, mae'n cynnal cysylltiadau cadarn â thref Aberteifi trwy ei gwasanaethau a'i hamwynderau.

Cwblhawyd cynllun sylweddol gwerth £11 miliwn (Cronfa Dreftadaeth y Loteri/cyllid Ewropeaidd) o waith adfer a datblygu yn 2014, pan gafodd Castell Aberteifi ei agor fel prif atyniad, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a rhoi hwb i siopau manwerthu a darparwyr llety a bwytai yn y dref a'r ardal gyfagos.

Yn yr un modd, mae'r Ganolfan Gofal Integredig ar gyrion gorllewinol y dref yn darparu cyfleuster meddygol a deintyddol modern ar gyfer pobl Aberteifi a'r cymunedau y tu allan i'r dref. Mae cynlluniau ar gyfer parc manwerthu ar dir cyfagos yn parhau ond mae'r gwaith o adfywio canol y dref ei hun wedi dwyn ffrwyth. Yn 2010 sefydlwyd 4CG, sef grŵp cymunedol i gefnogi'r economi, y dreftadaeth a'r diwylliant lleol. Ar yr un pryd, cwblhaodd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi brosiect mawr i adfer Neuadd y Dref (2009) ac, yn fwy diweddar, ail gam i ddatblygu Marchnad Dan Do Neuadd y Dref (a agorwyd ym mis Mehefin 2024).

Crëwyd Partneriaeth Canol Tref Aberteifi yn 2013, gan ddod â phartneriaid lleol amrywiol ynghyd i'r diben o lywio bywiogrwydd canol tref Aberteifi yn ei flaen.





Darparwyd y lluniau gan y Cyngor Tref

# Cynllun Bro Abertieifi
# Prosiectau Allweddol




1. **Pwll Nofio Aberteifi** Adfer y cyfleuster.
2. **Y Strand** Gwella amddiffynfeydd presennol yr afon.
3. **Cei'r Tywysog Charles** Gwella'r mynediad at lan yr afon/cysylltiadau â glan yr afon.
4. **Llwybr y Dyfrgi** Gwella'r cysylltiad â'r afon, a chynyddu bioamrywiaeth a safon y mannau gwyrdd ar hyd glan yr afon.
5. **Parc Natur a Gwlyptir Mwldan** Creu cynefin gwlyptir i wella bioamrywiaeth. Defnyddio'r gwlyptir fel adnodd llesiant ar gyfer y gymuned leol.
6. **Parc Netpool** Cynyddu bioamrywiaeth ac ehangu'r ystod o ddefnyddiau ar gyfer y gymuned.
7. **Maes Radley** Datblygu meysydd hyfforddi rygbi a phêl-droed.
8. **Man Chwarae Maes-glas** Datblygu'r cae i fod yn fan chwarae.
9. **Capel y Tabernacl** Datblygu rhaglen ddiwylliannol sy'n hyrwyddo'r celfyddydau perfformio a chreadigol.



Gwarchodfa Natur Corsydd Teifi, darparwyd y llun gan y Cyngor Tref

### 1.1 Trosolwg

Mae Cynlluniau Bro yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio i lunio strategaeth Creu Lleoedd dan arweiniad y gymuned sy'n darparu manylion ar gyfer yr ardal leol, ac sy'n adlewyrchu ei hynodrwydd ac yn mynd i'r afael â materion penodol i'r gymuned honno.

Mae Cynllun Bro Aberteifi wedi cael ei ddatblygu gan y Cyngor Tref ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n cynnig syniadau rhagorol ar gyfer newid cadarnhaol yn Aberteifi a'r wardiau cyfagos.

### 1.2 Ynghylch Aberteifi

Arferai Aberteifi fod yn dref yn y Sir Aberteifi hanesyddol, a heddiw hi yw'r ail dref fwyaf yng Ngheredigion. Yn tra-arglwyddiaethu ar ddaearyddiaeth a chymeriad y dref, sydd wedi'i lleoli yn ne-orllewin Ceredigion, y mae Afon Teifi a'i llednant, Afon Mwldan.

Enillodd Aberteifi ei siarter gan Harri I yn 1110, a datblygodd y dref o gwmpas y castell carreg sy'n dyddio o'r 12fed ganrif, castell a godwyd ar safle castell pren a sefydlwyd yn ystod y goncwest Normanaidd. Y castell hwn oedd y castell carreg cyntaf i gael ei adeiladu gan Gymro, sef yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd, ac mae'n cael ei gydnabod fel safle'r Eisteddfod gyntaf, a gynhaliwyd gan yr Arglwydd Rhys yn 1176 i ddathlu cwblhau'r castell.

Erbyn yr oes Elisabethaidd, roedd Aberteifi wedi tyfu i fod yn un o borthladdoedd pwysicaf Cymru, a chanddo awdurdod dros ardal a estynnai o Abergwaun i Aberaeron. Yn ystod y ganrif ganlynol, sefydlwyd diwydiant adeiladu llongau yn y dref, a thyfodd y gweithgarwch masnachu ym mhorthladd Aberteifi. Roedd dros 300 o longau wedi'u cofrestru yma erbyn dechrau'r 1800au, ac Aberteifi oedd â'r trydydd porthladd mwyaf yn y DU ar ôl Lerpwl a Llundain.

Erbyn tua chanol y 19eg ganrif, dechreuodd aber Afon Teifi siltio ac roedd yn anoddach i'r llongau mwy a mwy eu maint ddod i mewn i'r porthladd. Pan ddaeth y rheilffordd i Aberteifi yn 1886, roedd y porthladd eisoes ar drai ac, ymhen ugain mlynedd, doedd fawr ddim ar ôl o'r fasnach a fu unwaith yn fwy na'r gweithgarwch masnachu ym mwyafrif porthladdoedd Prydain.

Mae cyllid a buddsoddiad diweddar yn nhreftadaeth adeiledig Aberteifi wedi helpu i ddatblygu'r hen dref farchnad yn ganolfan brysur ar gyfer cynnyrch lleol a thwristiaeth. Mae'r dref wedi dod i'r amlwg fel canolfan ddiwylliannol a threftadaeth bwysig, fel yr amlygir gan y gwaith o adfer Castell Aberteifi yn atyniad treftadaeth, yn fwyty, yn llety ac yn lleoliad digwyddiadau. At hynny, mae Aberteifi yn ganolfan ar gyfer gwasanaethau, sy'n cynnwys addysg bellach ac iechyd, ac mae nid yn unig yn gwasanaethu preswylwyr y dref ond hefyd yr ardal ehangach.

### 1.3 Data Allweddol ar gyfer Aberteifi


Er mwyn gosod y cefndir ar gyfer ein tref, mae'n ddefnyddiol cydnabod ei phwysigrwydd rhanbarthol. Mae gwybodaeth bellach ac ystadegau allweddol yn cynnwys y canlynol:

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sef y mesur swyddogol o amddifadedd cymharol, yn gosod ardaloedd bach yng Nghymru rhwng 1 (yr ardaloedd mwyaf difreintiedig) a 1,909 (yr ardaloedd lleiaf difreintiedig). Mae Aberteifi yn rhan o dair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), sydd yn safleoedd 125, 370, ac 899, yn y drefn honno, gan olygu ei bod yn y 10%-50% mwyaf difreintiedig o ran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (StatsCymru).

Mae Aberteifi, y mae 58% o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg, wedi gweld cynnydd o 3.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers cyfrifiad 2011 (54.6%).

### 1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19

Mae Covid-19 nid yn unig wedi amharu ar ein bywydau bob dydd ac achosi llawer o ansicrwydd, ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i ni ailosod y cloc a meddwl eto am y lleoedd yr ydym am fyw, gweithio a chwarae ynddynt. Mae angen i ni ailadeiladu cymdeithas wyrddach, lanach lle mae datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi, gan barchu ein hamgylchedd a rhoi lleoedd da i bobl fyw ynddynt, lleoedd sy'n hygyrch ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yr un mor wir am Aberteifi ag y mae ar gyfer Cymru gyfan.



Nododd Covid-19 (yn enwedig cyfnodau'r cyfyngiadau symud) y llecynnau yn y gymuned yr oedd ynysigrwydd yn effeithio arnynt fwyaf, a rhoddwyd systemau a rhwydweithiau cymorth ar waith. Mae'r ardaloedd hyn yn parhau i adfer yn arafach na gweddill y gymuned.

Gwelodd y cyfnod welliant a datblygiad sylweddol o ran sgiliau TG, yn enwedig mewn sefydliadau addysgol (athrawon, disgyblion a rhieni), a chyflwynwyd ffyrdd newydd o weithio o bell. Ehangodd masnachwyr lleol eu hamrediad o gynnyrch i fodloni galw cwsmeriaid, rhwydweithiau dosbarthu newydd ac archebion ar-lein. Gall pobl bellach weithio'n gyfan gwbl o gartref oherwydd eu gallu i gyrchu'r rhyngrwyd a chyfarfodydd ar-lein, gan fynd "i mewn i'r swyddfa" dim ond pan fo hynny'n hanfodol. Mae cyfleoedd cyflogaeth mewn rhai diwydiannau yn ein dinasoedd mwy bellach ar gael yn lleol oherwydd y ffordd newydd hon o weithio.

I sicrhau eich bod yn gweithio mewn amgylchedd gyda chysylltiadau Wi-Fi da a chyfleoedd i rwydweithio, mae yna opsiwn ar gael i weithio o leoliadau yng nghanol y dref trwy rentu desg boeth.

Mae'r dref yn prysuro ar ei ffordd i adferiad llwyr, ac mae yna ymdeimlad pendant o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wedi cael ei fabwysiadu gan rai preswylwyr. Ceir mwy o werthfawrogiad o'r ardal yr ydym yn byw ynddi ac ansawdd ein bywyd. Mae yna frwdfrydedd mawr ynghylch llywio prosiectau yn eu blaenau a gwneud y dref y gorau y gall fod. Dewis nifer cynyddol o bobl ifanc yw aros yn lleol a dod o hyd i waith yn y dref.

**1.5 Teithio a Chysylltedd**

Mae teithio'n parhau i fod yn broblem o ganlyniad i'r dirywiad yn y gwasanaeth bysiau lleol. Yr opsiwn cyffredin a'r un a ffefrir gan y mwyafrif yw bod yn berchen ar gar personol, ond nid yw hyn yn ymarferol i bawb, ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol. Ers cau'r cyswllt rheilffordd i deithwyr/nwyddau yn 1962-63, mae'r gorsafoedd rheilffordd agosaf wedi'u lleoli yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Chlunderwen. Serch hynny, mae mentrau diweddar o ran gwasanaethau bysiau cymunedol yn cynyddu yn eu poblogrwydd ac yn cael mwy o ddefnydd ymhlith y rhai nad oes ganddynt gar personol.

**1.6 Ystadegau**

Yn aml, mae nifer o ystadegau, sy'n cynnwys data cyfrifiadau, yn cael eu cyflwyno ar raddfa ddaearyddol y cyfeirir ati fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau). Mae tair LSOA yn cwmpasu'r dref. O'u cyfuno, mae'r LSOAau hyn yn cyfateb i ffin y Cyngor Tref. Mae'r data ar y dudalen ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau) gyferbyn.

---


Allwedd:

- Aberteifi (LSOA 2021)
- Priffordd


Llandudoch




Poblogaeth





Deiliadaeth Aelwydydd yn Aberteifi





% Dadansoddiad o'r Galwedigaethau yn Aberteifi





% Poblogaeth a Ddynododd Cymraeg yn Unig





Y Gymraeg yn Aberteifi





% Grwpiau Oedran Poblogaeth yn Aberteifi





Ceir/Faniau fesul Aelwyd yn Aberteifi




% Gweithgarwch Economaidd yn Aberteifi




Ethnigrwydd yn Aberteifi




Ffynhonnell y data: NOMIS, Cymru, 2021




Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio
Aberteifi, Tachwedd 2022

## 2.1 Cyd-destun

Mae Cynlluniau Bro yn ategu cynlluniau datblygu statudol sydd mewn bod ac yn mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol, megis cynllunio cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Maent yn gweithredu fel mecanwaith i gymunedau ymgysylltu mewn modd creadigol â'r broses gynllunio.

### 2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun ar gyfer eu hardal a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hwn yn nodi amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal, ynghyd â'i bolisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.


Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn ffurfiol. O ganlyniad, rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r polisïau a geir yn y cynllun hwn. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynlluniau Bro, sy'n ychwanegu manylion at y broses o gynllunio datblygu statudol, ac yn ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys. Er bod Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol a all ddarparu cymorth i gyflawni'r gwaith, cânt eu paratoi i'r diben o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn a arweinir gan y gymuned yn helpu i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol. Caiff Cynlluniau Bro eu llywio gan bolisi, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i lywio a llunio strategaethau lleol a chenedlaethol tymor hwy.

### 2.1.2 Cyswllt â Pholisi

Mae pob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Bro drafft yn bodloni'r ddyletswydd a bennir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyflawni'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' trwy'r pum ffordd o weithio: Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor ac Atal.

Mae 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' (Cymru'r Dyfodol) yn nodi cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'r Cynllun yn cyflwyno strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio.




Cyd-destun y Cynllun Bro o fewn polisi, deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi nifer o ardaloedd lle dylid canolbwyntio ar ddatblygiad a thwf. Cyfeirir at yr ardaloedd hyn fel "Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol". Mae Aberteifi yn rhan o Ardal Twf Rhanbarthol Dyffryn Teifi, sy'n golygu y dylai gadw a gwella'r gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n gwneud yr anheddiad yn ganolbwynt i'r ardal. Mae Cymru'r Dyfodol, felly, yn cefnogi twf cynaliadwy yn Aberteifi, sy'n diwallu anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol rhanbarthol.

Mae pum egwyddor allweddol 'Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11' wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses ar gyfer llunio prosiectau Cynllun Bro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Hyrwyddo gwarchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.

### 2.1.3 Themâu Cynllun Bro

Mae yna bum thema Cynllun Bro graidd sy'n darparu strwythur ac yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chamau gweithredu fod yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bo cynnwys y Cynllun Bro hwn a'r set o is-themâu yn unigryw i Aberteifi, mae'r categorïau'n gyffredin ledled pob tref yng Ngheredigion. Mae pob un o'r themâu'n cael eu llywio gan ddeddfwriaeth, polisi, a dyheadau cymunedol. Mae'r disgrifyddion cefndir canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Bro:

Llesiant:

Meddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, a darparu cymorth i'r gymuned leol atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Nod y camau gweithredu hyn yw lleihau'r gwahaniaethau o fewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog. Mae'r thema'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Creu Lleoedd:

Mabwysiadu agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio gofodau. Mae creu lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Dylai hyn arwain at ddatblygu gofodau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd. Mae'r thema'n ymateb i Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 ac mae'n ymgorffori gwerthoedd Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Treftadaeth a Diwylliant:

Diogelu'r dreftadaeth ranbarthol unigryw a'r asedau diwylliannol cyfoethog sy'n bresennol yn y dref. Nod y camau hyn yw datblygu'r cymeriad hanesyddol sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal ac i fyw ynddi. Mae'r thema'n cymhwyso egwyddorion cadwraeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o werth treftadaeth llawer o nodweddion hanesyddol lleol – rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Ceredigion. Mae'r thema'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth.

Yr Economi:

Datblygu rhaglen buddsoddiad mewn adfywio dargededig sy'n cynnal economi ffyniannus gynaliadwy. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau allweddol i gyflawni gweledigaeth o economi sy'n darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n dewis byw a gweithio yn y gymuned leol. Mae'r thema'n gysylltiedig â pholisi a chymorth adfywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella canol trefi. Mae'r agwedd hon ar y Cynllun Bro yn cael ei llywio gan Strategaeth Adfywio Aberteifi (2023), ynghyd â chonsensws cyffredinol ynghylch prosiectau ac ymyraethau allweddol sydd wedi llywio cymeradwyaeth y Cyngor Tref.

Yr Amgylchedd:

Creu cymunedau gwyrddach, cynaliadwy ac iddynt gysylltiadau da, sy'n cymryd camau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r thema'n hyrwyddo amcanion sirol a chenedlaethol, yn ogystal â thargedau allyriadau carbon i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y thema ei llywio gan y cynllun seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y dref a chyfleoedd allweddol yr hoffai'r Cyngor Tref eu symud yn eu blaen a'u blaenoriaethu.




Heol Eglwys Fair

## Themâu Cyffredin Ceredigion

### Llesiant

- Hygyrchedd
- Teithio llesol
- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Gofal iechyd
- Iechyd a llesiant
- Hamdden
- Cyfleusterau cyhoeddus
- Hamdden
- Chwaraeon
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Llwybrau cerdded

### Creu Lleoedd

- Llety
- Amgylchedd adeiledig
- Gerddi cymunedol
- Darpariaeth gymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Mannau gwyrdd
- Gwelliannau i'r stryd fawr
- Gwell ffryntiadau
- Parcio
- Cerddwyr
- Hyrwyddo a rheoli
- Arwyddion
- Cymeriad y dref
- Sgwâr y dref

### Treftadaeth a Diwylliant

- Cymeriad pensaernïol
- Treftadaeth bensaernïol
- Cadwraeth
- Diwylliant
- Treftadaeth
- Cyd-destun hanesyddol
- Diwylliant hanesyddol
- Y Gymraeg

### Yr Economi

- Atyniadau
- Cyrchfan
- Yr economi
- Addysg
- Tirnodau
- Busnesau lleol
- Marchnata
- Hyrwyddo
- Twristiaeth

### Yr Amgylchedd

- Mynediad
- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd
- Seilwaith gwyrdd
- Tirwedd
- Yr amgylchedd morol
- Yr amgylchedd naturiol
- Cynaliadwyedd
- Teithio cynaliadwy

Themâu cyffredin ledled Cynlluniau Bro Ceredigion

**2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant**

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu Llesiant yn y gyfraith ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn treiddio i lawr i bob prosiect a chynllun yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u hamlinellir ar lefel leol yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, wedi llywio datblygiad y Cynllun Bro hwn.


Wrth ddatblygu Cynllun Bro, mae'n hollbwysig bod y saith nod llesiant yn cael eu cadw yn rheng flaen y meini prawf allweddol. Bydd y nodau yr anelir atynt yn bodloni'r cyfrifoldebau a roddir ar gynghorau i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'n ddyletswydd ar bawb i gefnogi'r broses o wreiddio'r nodau llesiant yn nyfodol Aberteifi.

**2.1.5 Diben a Budd y Cynllun**

Bellach, mae gan gymunedau Cymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i lunio dyfodol y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae gan y Cynllun Bro y potensial i weithredu fel Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan arweiniad y gymuned ar gyfer yr awdurdod lleol, ac i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a chynlluniau mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Gall y ddogfen gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol trwy nodi uchelgeisiau'r gymuned leol a denu cyllid i'w gwireddu.

Bydd y Cynllun Bro yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio yn y dref yn y dyfodol, ac yn creu tystiolaeth i helpu i ddenu buddsoddiad a chyfeirio gwaith sefydliadau'r dref i'r dyfodol.

Rhagwelir y bydd Cynllun Bro Aberteifi yn cael ei ddefnyddio yn ogystal i gefnogi ceisiadau am gyllid lle bo hyn yn codi, a hynny trwy nodi blaenoriaethau'r Cyngor Tref a'r gymuned o ran defnydd tir a datblygu, a'u prosiectau arfaethedig.





Y saith nod llesiant a nodir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'


### 2.2 Dull

Dechreuodd y cyfarfodydd cychwynnol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a detholiad bach o Gynrychiolwyr y Cyngor Tref mor bell yn ôl â 2018. Rhestrwyd syniadau ar y modd y dylid datblygu Aberteifi er mwyn iddi ffynnu a thyfu. Cynghorwyr yw llais y gymuned ac maent yn adlewyrchu dymuniadau pob preswylydd a busnes yn y sgyrsiau amrywiol hyn. Rhoddwyd cyfleoedd ar gyfer mewnbwn i'r cynllun trwy gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori cymunedol fel y gellid clywed pob barn a'i hystyried.

Allwedd:

- Afon Teifi
- 1890au
- 1930au
- 1980au
- 2023
- Ffin yr anheddiad






Twf anheddiad Aberteifi

### 2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro


Mae'r Cynllun Bro yn cwmpasu anheddiad Aberteifi, ac mae'r dref yn cynnwys dwy ward etholiadol ar Gyngor Sir Ceredigion, sef: Ward Mwldan a Ward Teifi. Gyda'i gilydd, mae'r wardiau etholiadol yn cyfateb i ffin y Cyngor Tref, er bod y Cyngor Tref yn cynrychioli tair ward, sef: Mwldan, Teifi a Rhyd-y-fuwch (caiff y ddwy olaf eu dwyn ynghyd i ffurfio Ward Teifi ar Gyngor Sir Ceredigion).

Mae Aberteifi yn gweithredu fel y Ganolfan Gwasanaethau Lleol ar gyfer Llandudoch, yn ogystal â nifer o bentrefi a chymunedau cyfagos, gan gynnwys Llechryd, Cilgerran, Cenarth, Pen-parc, Gwbert, Y Ferwig ac Aberporth. Bydd nodau a syniadau'r Cynllun Bro yn effeithio'n uniongyrchol ar yr aneddiadau cyfagos hyn oherwydd eu hagosrwydd at y dref, gan estyn y buddion i ardal lawer mwy na ffiniau'r dref.

Bu Cyngor Tref Aberteifi yn allweddol o ran dwyn ynghyd ystod eang o randdeiliaid a luniodd gynllun gweithredu drafft cychwynnol ar gyfer Partneriaeth Canol y Dref, a hynny cyn belled yn ôl â 2014.

Roedd y partneriaid hyn yn cynrychioli masnachwyr lleol, y wasg leol, Ysgol Uwchradd Aberteifi a Choleg Addysg Bellach Ceredigion, grwpiau ieuenctid, cymdeithasau tai, grŵp cymunedol 4CG, ymddiriedolwyr y Castell ac ymddiriedolwyr marchnad Neuadd y Dref, a weithiodd ar y cyd â'r hyrwyddwr busnes lleol (The Best of Cardigan and Teifi Valley) i farchnata Aberteifi fel tref ac iddi galendr llawn o wyliau a digwyddiadau. Y nod oedd gwneud y dref yn gyrchfan "rhaid ymweld â hi", ac roedd sawl menter yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol. Mae'r cardiau teyrngarwch a'r "Fiver Fest" yn ddwy enghraifft gynnar o'r rhain.

Mae mentrau dilynol wedi cynnwys ystadegau misol yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr dyddiol, datblygiadau yng nghanol y dref, ac amserlen o'r gwyliau, y sioeau a'r digwyddiadau, mentrau y mae eu manylion yn parhau i gael eu hanfon yn fisol trwy e-bost at bob rhanddeiliad.





Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio Aberteifi, Tachwedd 2022

### 2.2.2 Gweithredu Cymunedol

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori wedi eu cynnal gyda phreswylwyr lleol, yn ogystal ag ymwelwyr, ac maent wedi cyfrannu at y cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Datblygwyd y ddogfen bro ddrafft mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr arbenigol a swyddogion arbenigol o'r awdurdod lleol.

I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor Tref yn datblygu strategaeth ehangach ar hyn o bryd a fydd yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad ar gyfer datblygiadau a gwelliannau yn y dref. Cefnogir hyn gan gyfres o Gynlluniau Blynyddol i helpu o ran eglurder a chamau gweithredu fel y gellir sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r gwelliannau.

Cyfrifoldeb yr Is-bwyllgor Cynllun Bro, yn bennaf, fu'r broses o baratoi'r Cynllun Bro. Ffurfiwyd yr Is-bwyllgor Cynllun Bro gan Gyngor Tref Aberteifi, ac roedd yr aelodaeth yn cynnwys y Maer, y Dirprwy Faer a thri chynghorydd.

Ceir crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd isod:

- Gorffennaf 2018: Hyrwyddo a chasglu syniadau yn Aberteifi, Aberporth, Y Ferwig a Llangoedmor.
- Haf 2018: Digwyddiad Carnifal Llechryd.
- 2018-2019: Ymgynghoriad â Chyngor Tref Aberteifi, Cyngor Cymuned Llangoedmor a Chyngor Cymuned Pen-parc.
- Mai 2019: Digwyddiad Aberteifi yn yr Hen Lys.
- Mai-Medi 2019: Creu a hyrwyddo arolwg a arweiniodd at:
    - 31 o ymatebion trwy arolwg ar bapur;
    - 46 o ymatebion trwy arolwg ar-lein.
- Ymgymerwyd â ffrydiau gwaith amrywiol eraill, a gafodd eu llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus a phroses ymgysylltu: Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas, Cynllun Adfywio Tref, Brandio Tref, Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth.

### 2.2.3 Adborth y Gymuned

Yn seiliedig ar y sylwadau a'r adborth a ddangosir ar y dudalen hon, mae'n amlwg y gall barnau'r gymuned fod yn eang eu cwmpas ac yn groes i'w gilydd. Mae pedestreiddio yn enghraifft wych – tra byddai rhai yn ei groesawu ar y Stryd Fawr, mae eraill yn gwrthwynebu. Serch hynny, byddai'r buddsoddiad i wneud Aberteifi yn lle gwell i ymweld ag ef neu i fyw ynddo yn cael ei groesawu gan bawb.

Ac eithrio'r adborth a gofnodwyd yn yr adroddiad eisoes, mae prif ffurf yr adborth yn deillio o gyfathrebu llafar rheolaidd rhwng y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y dref a'r cynghorwyr. Enghreifftiau amlwg a fyddai'n cael eu derbyn gan bawb yw datblygiad y Strand a Chei'r Tywysog Charles, a chyswllt Llwybr y Dyfrgi â maes parcio Netpool. Mae'r ardal hon yn safle gwych ar gyfer gwaith datblygu a fyddai'n annog ymwelwyr i'r dref ac yn gwneud y profiad o dreulio amser ynddi yn fwy dymunol i bawb. Byddai datblygu Gwarchodfa Natur/Gwlyptir Mwldan yn ased tebyg.

### 2.2.4 Ymatebion

Mae rhai o'r sylwadau a'r adborth o'r ymgynghoriad cymunedol yn cynnwys y canlynol:

> Mae wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i fwy o leoedd i gymdeithasu a chynnydd mewn entrepreneuriaeth. Hoffwn weld yr elfennau gwasanaeth a manwerthu yn cael eu gwella fel eu bod yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn lleol.

> Caffis, bwytai a digwyddiadau min nos newydd rhagorol. Gallem hyrwyddo'r fasnach leol a'r economi gylchol fwy.

> Mae'r llygredd o byllau slyri a chemegion ffermydd yn effeithio ar y stociau pysgod ac yn bygwth hyfywedd yr afonydd.

> Mae gan Aberteifi gymysgedd da o fusnesau ar hyn o bryd. Gellir adeiladu ar hyn trwy gyfrwng mentrau i gefnogi ac annog pobl ifanc i ddechrau busnesau.


> Mae'r ardal yn hyfryd, mae'r traethau'n cael eu cadw'n lân, ac mae'r toiledau cyhoeddus lleol yn cael eu cynnal yn dda ac yn cael defnydd da. Gwneir defnydd o'r afon ac mae i'w gweld yn llawn bywyd gwyllt.

> Rwy'n hoffi naws tref fach gyda'i siopau lleol; mae ynddi well gwasanaeth cwsmeriaid ac amrywiaeth.

> Amgylchedd naturiol rhagorol sy'n cael ei gynnal a'i warchod yn dda. Angen sicrhau bod hyn yn parhau gan ei fod yn denu twristiaeth a buddsoddiad i'r ardal.



Golygfa o'r Strand, darparwyd y llun gan y Cyngor Tref


Cyrchfan
Tirwedd
Byw a Gweithio
Cymuned
Rheoli Llifogydd
Llwybrau Troed a Phontydd
Iechyd a Llesiant
Gwelliannau i'r Stryd Fawr

### 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth

Y weledigaeth yw fod Aberteifi'n parhau i ddatblygu fel tref farchnad ffyniannus, gyffrous a hyfyw i fyw a gweithio ynddi; tref sy'n cynnig gwaith ar gyflog da er mwyn cadw ei gweithwyr proffesiynol ifanc yno, sy'n cefnogi busnesau a pherchnogion busnesau, sy'n ehangu gwasanaethau fel eu bod ar gael i bawb, sy'n cefnogi ac yn annog busnesau i allforio eu gwasanaethau y tu hwnt i'r dref, sy'n sicrhau bod yna wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol a defnyddiadwy ar gael, yn ogystal â gwasanaethau meddygol cadarn i gefnogi'r gymuned, a thref sy'n hyrwyddo amgylchedd ar gyfer ffyrdd iach ac amgen o fyw.

1. Annog bioamrywiaeth a chynaliadwyedd, gan addasu i heriau'r 21ain ganrif.

2. Datblygu a manteisio ar y llu o feysydd i fuddsoddi ynddynt sydd yn nhref Aberteifi – yn enwedig ym maes y celfyddydau perfformio a chreadigol, gan gryfhau'r dref fel "crud y diwylliant Cymreig" ac annog twf y Gymraeg a'r defnydd o'r iaith mewn bywyd o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i ailddefnyddio adeiladau hanesyddol o bwys, sy'n wag ar hyn o bryd, i'r diben hwn.

3. Gwneud y dref yn lle deniadol i fyw.

    - Yr Awdurdod Lleol, Cyngor Sir Ceredigion, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod seilwaith y dref yn parhau'n ddeniadol trwy gynnal a chadw'r ymylon gwyrdd, chwynnu, casglu sbwriel, ac ati, ond mae toriadau diweddar yn rhoi mwy o bwysau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i'r gymuned leol. Mae hon yn duedd anochel, sy'n cael ei gwaethygu gan doriadau i gyllid, elfen sy'n cael sylw ar hyn o bryd trwy gyfuniad o fentrau lle mae'r Cyngor Tref yn gweithio mewn cydweithrediad â gwirfoddolwyr. Y gofynion sylfaenol ar gyfer sicrhau bod y dref yn ddeniadol yw'r gwasanaethau elfennol sy'n cael eu tynnu'n ôl, gan arwain at ddelwedd fwy anniben; mae gweld biniau gorlawn a/ phalmantau brwnt/â thyfiant ynddynt yn rhywbeth cyffredin. Mae buddsoddi miliynau mewn prosiectau newydd yn ddibwrpas os nad yw'r gwasanaethau angenrheidiol sylfaenol hyn yn cael eu darparu. Pan fo'r elfennau sylfaenol ar waith, mae'n llawer haws i bawb sy'n byw yma ymfalchïo yn eu hamgylchedd a chwarae eu rhan o ran cadw ymddangosiad y dref ar ei safon uchaf.

4. Hyrwyddo twf busnesau a gwella cyfleoedd cyflogaeth.

    - Mae angen gwrando ar lais perchnogion busnesau a'u cefnogi. Byddai cyfleoedd am grantiau, atal y Dreth Gyngor a chymorth gyda rheoliadau oll yn arwain at ganol tref mwy llewyrchus. Byddai perchnogion busnesau yn elwa o weithio mewn grŵp i ddatrys problemau a rennir. Dylai sianeli cyfathrebu fod yn agored ac yn dryloyw. Mae angen i'r ddarpariaeth addysg adlewyrchu gofynion y farchnad leol a darparu'r cyrsiau penodol gofynnol i ddiwallu'r anghenion hyn, gan, ar yr un pryd, ddarparu cyflogaeth sy'n talu'n dda i'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg lleol ac sy'n dymuno aros a byw yn eu tref enedigol.

5. Gwella argaeledd tai o safon i bawb.

    - Mae angen i bolisi cynllunio adlewyrchu'r angen am dai. Dylai'r gwaith trin carthion newydd arfaethedig leddfu'r problemau presennol. Mae angen i grantiau i wella eiddo gwag fod yn hygyrch. Mae angen meithrin partneriaethau agos â chymdeithasau tai.

6. Cadw a gwella gwasanaethau er budd y dref a'r gymuned ehangach.

    - Mae gwasanaethau'n hanfodol i bawb, a bydd eu disbyddu ddim ond yn annog pobl i ymfudo i rywle arall. Mae iechyd, lles cymdeithasol, trafnidiaeth, addysg, a gwasanaethau cynghorau unedol yn aml yn cael eu hanwybyddu, ond dyma elfennau pwysicaf y ddarpariaeth. Mae'n hanfodol sicrhau rhwydwaith cadarn o wasanaethau a darpariaeth yn y meysydd hyn.

7. Cynnal a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg.

    - Mae dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol yn hanfodol ar bob cyfle. Cefnogir ac anogir grwpiau cymunedol i barhau â digwyddiadau traddodiadol. Mae camau i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, wedi'u gwreiddio yn ein systemau "Dwy iaith: dwywaith y cyfleoedd". Mae deddfau ar waith i sicrhau bod pob arwydd a phob eitem o lenyddiaeth yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg (gan gynnwys arwyddion ffryntiadau siopau), gyda'r Gymraeg gyntaf lle bynnag a phryd bynnag y bo modd.

8. Parhau i ddatblygu Aberteifi yn brif gyrchfan i dwristiaid.

    - Mae arfordir a harddwch naturiol yr ardal yn fagnet cryf sy'n denu twristiaid, ond mae angen darparu busnesau lletygarwch o safon uchel er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol i ymwelwyr. Mae'r nifer cynyddol o Wyliau, Digwyddiadau a Sioeau, megis Lleisiau Eraill, yr Ŵyl Grefft, yr Orymdaith Llusernau, ac ati, hefyd yn ychwanegu at fywiogrwydd ein twristiaeth, yn ogystal â chadw'r digwyddiadau amaethyddol/ diwylliannol blynyddol traddodiadol yn weithredol: Sioe Aberteifi, Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi, Gŵyl Fawr Aberteifi (Eisteddfod Aberteifi), Sadwrn Barlys Aberteifi, ac eraill.

> **Y weledigaeth yw fod Aberteifi yn dref farchnad hyfyw i fyw a gweithio ynddi.**

### 3.2 Pwyntiau Ffocws

Mae gan bob tref fannau ffocws, tirnodau ac atyniadau allweddol sy'n ei gwneud yn unigryw. Mae'n bwysig cynnal y rhai mewn bod, ond, ar yr un pryd, eu gwella a'u datblygu lle bynnag y bo modd a datblygu rhai newydd. Mae mannau ffocws Aberteifi yn cynnwys y canlynol:

- Y Castell.
- Glan-yr-afon.
- Neuadd y Dref.
- Y Strand.
- Afon Teifi.
- Theatr Mwldan.
- Canolfan Byd Bychan.

Mae'r pwyntiau ffocws ar gyfer datblygu fel a ganlyn:

- Pwll Nofio Aberteifi.
- Y Strand.
- Cei'r Tywysog Charles.
- Llwybr y Dyfrgi.
- Parc Natur a Gwlyptir Mwldan.
- Parc Netpool.
- Maes Radley.
- Man Chwarae Maes-glas.
- Capel y Tabernacl.

### 3.3 Blaenoriaethau

I helpu o ran archwilio'r themâu allweddol hyn, cawsant eu rhannu'n saith maes i sicrhau eglurder a dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae yna lawer o orgyffwrdd a chysylltiadau amlwg rhwng y themâu. Mae'r themâu hyn fel a ganlyn:

1. Cyfleoedd Datblygu

Mae'n bwysig cadw meddwl agored a mabwysiadu'r agwedd o "roi cynnig arni". Annog ein cymuned ifanc i fod yn uchelgeisiol, gan feithrin y broses o ehangu busnes sefydledig (neu ei ddyblygu os oes gofyn). Darparu nifer o gyfleoedd i siopau, manwerthwyr a darparwyr adloniant ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu wyneb amlochrog cydlynol o Aberteifi fel cyrchfan ddeniadol.

Nododd arweinlyfr diweddar a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar chwe thref farchnad Ceredigion fod Aberteifi yn cael ei hystyried yn dref Creadigrwydd: ar gyrion Cymru, yn gysylltiedig ag antur, i bobl sy'n chwilio am gyfleoedd. Yn y gorffennol, roedd Aberteifi yn borthladd pwysig ac yn borth i fywyd newydd yn y Byd Newydd. Heddiw rydym yn cynrychioli Cymru newydd – lle mae meddylwyr gwreiddiol yn ffynnu a syniadau yn dod yn fyw.

2. Gwella Hygyrchedd

Gwella cyflwr y ffyrdd mynediad, cadw cynlluniau grant megis y Gronfa Teithio Llesol yn weithredol. Sicrhau darpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da, gan ddatblygu cysylltiadau rhwng y cymunedau ar y cyrion a'u Canolfan Gwasanaethau Lleol (Aberteifi). Mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb y cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth y dref sy'n heneiddio. Mae rhai cysylltiadau (Llandudoch/Aberteifi) eisoes wedi'u cwblhau, tra bo eraill mewn camau cynnydd amrywiol.

3. Gwelliannau i'r Amgylchedd

Mae angen llawer o waith ar y flaenoriaeth hon; mae yna bosibilrwydd o nifer o welliannau amrywiol yma. Annog ardaloedd dad-ddofi sefydledig lle caniateir i natur ddilyn ei chwrs. Gwyrddu'r dref trwy gyflwyno mwy o lwyni a choed lle bo hynny'n addas. Meithrin cynlluniau ailgylchu, cyflwyno hyd yn oed fwy o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan (Sylwer bod pob maes parcio yng nghanol y dref bellach yn cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan).

4. Gwelliannau i'r Stryd Fawr a'r Ffryntiadau

Annog balchder ymhlith perchnogion busnesau unigol. Cynlluniau grant i helpu gyda chostau. Datblygu cynllun mabwysiadu bin. Cyflwyno system i ddirwyo landlordiaid/perchnogion adeiladau gwag ar y Stryd Fawr.

5. Hanes a Safon Bensaernïol

Diogelu ein hadeiladau hanesyddol trwy ddarparu cymorth ariannol (grantiau) a chyngor – cynllunio. Mae polisi cynllunio eisoes ar waith i sicrhau safon bensaernïol. Darparodd Menter Treftadaeth Treflun Aberteifi (a lansiwyd yn 2003) gymorth i adfer hanes pensaernïol cyfoethog y dref, a hynny gan ddefnyddio dulliau traddodiadol i adnewyddu nodweddion gwreiddiol gwerthfawr. Mae tystiolaeth o waith brics y dref yn y 19eg ganrif i'w gweld o hyd ar hyd prif strydoedd a strydoedd ochr Aberteifi, yn enwedig ar lefel y llawr cyntaf. Gweler tudalen 36 am amrywiaeth eang o ddyluniadau.

6. Iechyd a Llesiant

Annog clybiau chwaraeon a grwpiau cymdeithasol i gynnal digwyddiadau trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned. Mae canolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd cefnog a'r ardaloedd mwy difreintiedig yn Aberteifi yn elfen allweddol. Mae dwy o'r tair ward ar y Cyngor Tref yn ymddangos ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) ac mae llawer o fentrau ar y gweill i wrthsefyll effaith negyddol y sefyllfa hon.

7. Ein Cymunedau

Annog grwpiau unigol i ffurfio, ac i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu darpariaeth, eu nodau a'u digwyddiadau eu hunain. Dathlu a chydnabod gwaith sawl grŵp, a rhannu arfer da. Yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, daeth grŵp gwirfoddol cryf ynghyd i gefnogi a chynorthwyo preswylwyr – yn enwedig pobl fregus neu'r rhai a oedd yn byw ar eu pen eu hunain. Roedd hwn yn dempled ardderchog ar gyfer mentrau dilynol i fynd i'r afael ag anghenion yr aelodau hynny o'n cymdeithas.

Mae adrannau canlynol y Cynllun Bro yn archwilio'r syniadau, y prosiectau a'r cynlluniau ar gyfer pob un o'r themâu allweddol yn fanylach.

Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn gadarnhaol ac yn effeithiol, bydd pob cam gweithredu mewn perthynas â materion a themâu a nodwyd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Bydd yna hefyd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal â phreswylwyr a busnesau lleol. O ran datblygiadau yn y dyfodol, boed yn achos yr amgylchedd adeiledig, yr amgylchedd naturiol, neu mewn perthynas â gwasanaethau, mae yna lawer o ffactorau y dylid eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys polisïau lleol a chenedlaethol – bydd rhai ohonynt yn gefnogol a rhai yn gyfyngol. Cyfeirir at bolisïau o'r fath lle bo hynny'n berthnasol.

O ran uchelgeisiau a dyheadau'r gymuned, mae'n bwysig bod anghenion cymunedol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hyn ochr yn ochr â chyfyngiadau posibl, sy'n cynnwys y ddaearyddiaeth leol, maint y boblogaeth a'r amrywiadau ynddi, cyfyngiadau ariannol, cyfleoedd ar gyfer cyllid grant, ac elfennau eraill o'r fath. Byddir yn mynd ati'n barhaus i gyfeirio at adborth cymunedol sydd wedi dod i law o ymarferion ymgynghori, a bydd y gymuned ehangach yn cael gwybodaeth gyson, ac ymgynghorir â hi yn y dyfodol.

O'r herwydd, mae'r ddogfen hon, er ei bod yn amlinellu datblygiadau posibl yn y dyfodol ar gyfer Aberteifi, yn ddogfen gyfnewidiol, a bydd yn parhau i gael ei diweddaru a'i haddasu'n rheolaidd.



Mae yna bosibilrwydd o unedau diwydiannol ysgafn ychwanegol ym Mharc Teifi ac mewn cymunedau ar y cyrion (Llechryd, Pen-parc).



Y bont droed a Phont Aberteifi dros Afon Teifi,
darparwyd y lluniau gan y Cyngor Tref

## Themâu Cyffredin Aberteifi

| Llesiant | Creu Lleoedd | Treftadaeth a Diwylliant | Yr Economi | Yr Amgylchedd |
|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | Llety | Treftadaeth bensaernïol | Yr economi | Llifogydd |
| Teithio llesol | Amgylchedd adeiledig | Treftadaeth | Busnes lleol | Amgylchedd morol |
| Cymuned | Darpariaeth gymunedol | Cyd-destun hanesyddol | Hyrwyddo | Amgylchedd naturiol |
| Llwybrau beicio | Cyfleoedd datblygu | Diwylliant hanesyddol | Twristiaeth | Cynaliadwyedd |
| Gofal iechyd | Mannau gwyrdd | Y Gymraeg | | Llifogydd |
| Iechyd a llesiant | Gwelliannau i'r Stryd Fawr | Cymeriad y tref | | |
| Hamdden | Gwell ffryntiadau | | | |
| Cyfleusterau cyhoeddus | | | | |
| Chwaraeon | | | | |
| Twristiaeth | | | | |
| Trafnidiaeth | | | | |
| Llwybrau cerdded | | | | |

Pynciau sy'n dod i'r amlwg o dan eu themâu priodol yng Nghynllun Bro Aberteifi.

### 4.1 Themâu sy’n Dod i’r Amlwg

Mae’r gymuned wedi blaenoriaethu set o is-themâu sy’n cyd-fynd â fframwaith y Cynllun Bro a amlinellir yn Adran 2. Mae’r pynciau yn y Cynllun Bro yn rhyng-gysylltiedig ac mae eu cynnwys yn croesgyfeirio. Un o’r prif ddibenion yw ychwanegu haen ychwanegol o wybodaeth leol at bob thema. Mae hyn wedi arwain at yr amcanion canlynol yn dod i’r amlwg:

Llesiant:

Mae gan wasanaethau a grwpiau lleol wybodaeth leol am yr union ardaloedd y mae’n ofynnol eu targedu. Yn allweddol i wella llesiant yn y mannau hyn y mae dull strategol o gynllunio partneriaethau. Y bobl hynny sy’n byw mewn tlodi, nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau na chymorth, ac nad ydynt yn cymryd rhan yn y gymuned gyfagos na’r amgylchedd cyfagos, yw’r rhai anoddaf ymgysylltu â nhw. Mae angen gwella’r cyhoeddusrwydd i wasanaethau a digwyddiadau, meithrin ymddiriedaeth, ac annog y broses o rannu straeon llwyddiant ar lafar, yn yr ysgolion ac ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol. Er enghraifft, mae gennym deuluoedd sy’n byw yng nghanol y dref nad ydynt erioed wedi dewis mentro i draeth lleol ar yr arfordir nad yw fwy na milltir neu ddwy o’u cartref.

Creu Lleoedd:

Y prif fannau lle bo datblygu’n ofynnol yw glannau’r afon o’r Strand i Netpool, ac Afon Mwldan – y rhain yw’r blaenoriaethau lleol. Mae buddsoddiad yn y lleoliadau hyn yn parhau. Yn hanesyddol, roedd ffocws y dref ar Afon Teifi a gweithgareddau a busnesau cysylltiedig (adeiladu llongau, gwneud hwyliau, ac ati), ac mae datblygiadau diweddar yn y castell ac ar Gei’r Tywysog Charles yn ailgynnau’r berthynas hon â’r ased naturiol hwn sydd ar drothwy ein drws.

Treftadaeth a Diwylliant:

Placiau hanes, cerfluniau bychain, defnydd o’r Gymraeg – nodweddion wedi’u gosod o amgylch y dref sy’n dathlu cymeriadau a digwyddiadau nodedig y gorffennol a’r presennol, hyd yn oed os nad ydynt yn weledol amlwg, megis y gwaith brics a’r porthladd gweithredol.

Yr Economi:

Mae busnes yn annog ac yn hybu busnes. Mae economïau’n tyfu’n organig mewn tref fywiog. Mae’r seilwaith sylfaenol sy’n cefnogi twf busnesau lleol yn hanfodol. Mae datblygiadau diweddar mewn TG yn rhoi data amhrisiadwy i siopau a busnesau ynghylch nifer yr ymwelwyr, nifer yr ymwelwyr newydd, oriau busnes brig – elfennau sydd oll yn helpu i reoli busnes yn y ffordd orau posibl.

Yr Amgylchedd:

Mae’n ddyletswydd arnom i ddiogelu’r helaethrwydd o amgylchedd naturiol sy’n amgylchynu Aberteifi. Mae annog bioamrywiaeth bellach yn arfer cyffredin ac mae ymwybyddiaeth yn cynyddu o hyd. Mae llawer o grwpiau cymunedol yn canolbwyntio ar yr agweddau hyn, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr o’r gymuned i ysgogi mentrau i wella’r amgylchedd naturiol ac adeiledig ymhellach.




Coleg Ceredigion, Campws Aberteifi



# Llesiant

### 4.2.1 Trosolwg

Mae llesiant yn cael ei optimeiddio pan fydd unigolion yn teimlo'n gysylltiedig â'u cymdeithas a'u hamgylchedd ac yn gallu bod yn egnïol hyd eithaf eu gallu. Mae ymwybyddiaeth o'n cyffiniau a gwerthfawrogiad o'r manylion llai sy'n mynd heibio i ni bob dydd yn sgìl, yn yr un modd ag y mae byw yn y foment a gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym am ddim ar drothwy ein drws. Mae ymgysylltu â chymdeithas a chyfrannu ati yn meithrin hunanfoddhad. Gall y broses o roi rhywbeth yn ôl gynyddu ein hiechyd meddwl ac annog y teimlad o berthyn a llesiant.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Canolfan Llesiant yn nhref Aberteifi, a bwriedir symud ymlaen â'r fenter yn 2025-2026.

### 4.2.2 Iechyd a Llesiant


Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i ni ddiogelu ein gwasanaeth iechyd yn Aberteifi, a hynny trwy ddechrau gydag amgylchedd gwych i gerdded ac ymlacio ynddo. Fodd bynnag, mae'n bwysig na fydd yna ragor o doriadau yn y gwasanaethau iechyd. Mae yna fwlch yn y cyllid a'r cymorth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc. Yn gefn i lesiant yr ardal y mae ymdrech wirfoddol y bobl leol, ond mae'n gofyn am waith cydgysylltu.
- Mae'n ardal mor hyfryd, ac mae byw mewn man heb fawr ddim llygredd aer, ac sy'n cynnwys lleoedd gwych i'w harchwilio ac i gadw'n heini ac yn egnïol ynddynt, yn dda i'ch iechyd.
- Er bod yna ddigon o gyfleoedd ar gyfer iechyd a llesiant, mae rhwystrau mawr yn bodoli, gan gynnwys tlodi ac economi cyflogau isel, elfennau sy'n arwain at nifer anghymesur o uwch o achosion o iechyd gwael a llesiant is ymhlith rhannau o'r boblogaeth.
- Rwy'n cwrdd â llawer o bobl ifanc sy'n dioddef o hunan-barch isel/broblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn deillio o ddiffyg trafnidiaeth, diffyg swydd dda, maethiad gwael, a diffyg mynegiant creadigol. Dylem symud i ddiwylliant mwy adfywiol; ieuenctid yw'r dyfodol, felly gadewch i ni ofalu amdanynt y tu hwnt i 16 oed! Mae yna gyfleusterau ar gael a fyddai'n elwa o gael eu hybu. Byddai o gymorth cyflwyno mynediad am ddim i fyfyrwyr ysgol a choleg yn Aberteifi i gyfleusterau sy'n cynnig darpariaeth iechyd a llesiant.
- Dylai gwasanaethau gofal iechyd fod ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau.

### 4.2.3 Hygyrchedd

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Carthu glan yr afon rhwng yr hen bont a Pizzatipi er mwyn i gychod preifat allu defnyddio'r pontŵn ac angori yng Nghei'r Tywysog Charles, rhywbeth nad yw'n bosibl ar hyn o bryd.
- Mae'r Alban wedi gosod mannau gwefru mewn dinasoedd, trefi a phentrefi anghysbell. Rhaid i ni sicrhau cynllun i ddal i fyny ag ardaloedd sydd â'u golwg ar y dyfodol. Gan fod argyfwng hinsawdd wedi cael ei gyhoeddi, mae newid bysiau a threnau i fod yn rhai trydan yn anochel, ond mae angen ffocws cadarn i gyrraedd yno mewn pryd. Gallai fod yma gyfle i wneud defnydd o gyllido torfol i brynu tir ar gyfer maes parcio yn y dref ac i osod mannau gwefru.
- Gwella'r arwyddion i ganol y dref ac o'i fewn.




Blaenoriaethau llesiant Aberteifi

**4.2.4 Teithio Llesol**

Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym ym mis Medi 2014 a thrawsnewidiodd y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn adeiladu seilwaith cerdded a beicio. O dan y Ddeddf, mae Aberteifi wedi'i dynodi'n 'ardal teithio llesol'. Felly, mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion i baratoi Map Rhwydwaith Integredig ar gyfer Aberteifi. Mae'r Map Rhwydwaith Integredig yn pennu rhaglen 15 mlynedd o welliannau i lwybrau teithio llesol yn yr anheddiad.

Mae'r gwelliannau teithio llesol a nodwyd ar gyfer Aberteifi fel a ganlyn:

- Mae adolygiad yn mynd rhagddo o Fap y Rhwydwaith Teithio Llesol. Gwahoddwyd y cyhoedd i roi sylwadau gan ddefnyddio system mapio Commonplace. Daeth y cam ymgysylltu â'r cyhoedd i ben ar 6 Ionawr 2020 a chafwyd tua 500 o sylwadau ac adborth.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid sefydlu a gwella'r llwybrau beicio a cherdded rhwng pentrefi, meysydd carafanau, canol y dref a llwybr yr aber arfordirol.
- Lledu'r palmentydd ar Res y Coleg a'i gwneud yn rhes unffordd er mwyn i gerddwyr allu cyrraedd ardal isaf Aberteifi a'r maes parcio.
- Dylid annog llwybrau beicio dynodedig.
- Cwblhau'r droedffordd rhwng Pen-parc ac Aberteifi.
- Cyflwyno llwybr teithio llesol rhwng Llechryd a thref Aberteifi
- Creu llwybr troed diogel ym mhentref Llechryd – ar hyn o bryd nid yw hanner y pentrefwyr yn gallu cerdded i'r ardaloedd chwarae na'r neuadd gymunedol.
- Gwella llwybr yr afon rhwng Cilgerran ac Aberteifi.
- Llwybrau cerdded a beicio newydd – mae cysylltiadau â Llandudoch, Pen-parc, Llangoedmor a Llechryd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella iechyd, diogelwch a llesiant, i leihau CO2, ac i sicrhau aer glanach a gwell twristiaeth. Mae'r dyheadau hyn yn themâu a gefnogir yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion.
- Mae Cei'r Tywysog Charles yn borth pwysig i Aberteifi o'r ffyrdd dynesu deheuol, elfen a ddylai hyrwyddo'r cyfleoedd i fywiogi ac egnïo'r lleoliad glan afon, lleoliad sydd â muriau mawreddog y castell yn gefndir iddo.
- Mae ardal Y Baddondy i Heol Gwbert, sy'n gartref i asedau gwyrdd, yn ogystal â defnyddiau hamdden ac addysgol, yn fan posibl ar gyfer llwybr teithio llesol i ganol y dref, ac ymlaen heibio Bron-y-Dre i lan Afon Teifi, ar gyfer preswylwyr gogledd y dref. Ar hyn o bryd, darperir mynediad amlddefnyddiwr ar hyd llwybr asgwrn cefn 'newydd' Y Baddondy (Maes y Dderwen) o Heol Gwbert i gyffordd Theatr Mwldan, ac mae gwaith pellach ar y gweill i wella diogelwch a mynediad i bob defnyddiwr yng nghyffiniau Theatr Mwldan ac ar y gylchfan ar Heol Gwbert.
- Mae'r afon yn rhwystr ffisegol o gyfadeilad y ganolfan hamdden, tir y coleg a'r ysgol, ac mae'r lleoliadau hyn yn dibynnu ar y llwybr hanesyddol a rennir a'r fynedfa bengaead o Heol y Gogledd, llwybr y mae gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau yn nodwedd ohono.
- Mae'r ardal ar lannau Afon Mwldan yn bwysig i liniaru llifogydd ac am ei bod yn adnodd bioamrywiaeth. Mae'r ffordd feingefn newydd yn gweithredu fel llwybr a rennir ar gyfer pob defnyddiwr, sy'n cynnwys cysylltiadau â thai Gofal Ychwanegol Maes Mwldan. Fodd bynnag, gellid gwella'r llwybr trwy 'wyrddu' amgylchoedd y ffordd a'u lliniaru â phlanhigion brodorol. Gellid ei gysylltu â chyrchfan ddeniadol trwy ffurfio mynediad teithio llesol yn unig ymlaen o briffordd Gofal Ychwanegol Maes Mwldan i'r Ganolfan Hamdden a Choleg Aberteifi. Gallai hyn agor a phoblogeiddio llwybr ac iddo gyfleoedd llesiant sylweddol i breswylwyr a myfyrwyr gan y gallent fwynhau man gwyrdd basn Afon Mwldan, a hwnnw wedi'i wahanu mewn modd priodol oddi wrth drafnidiaeth modur.

**4.2.5 Trafnidiaeth**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Mae amserlenni'r drafnidiaeth gyhoeddus yn wael ac ychydig iawn o fynediad sydd i Aberteifi ac o'r dref dros y penwythnos. Gellid gwella'r drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y pentrefi llai ar y cyrion. Mae'n anodd cymudo a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Aberteifi a'r Ferwig gan nad oes yna lwybr bysiau.
- Dylid cyflwyno gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus diweddarach ar y penwythnosau i alluogi gweithgarwch y nos. Mae'n dda gweld bod pob bws bellach yn gallu cludo cadeiriau olwyn, er nad oes gennym gwmni coetsys sy'n cynnig hyn. Mae yna hefyd ddiffyg gwasanaeth tacsis sy'n cynnwys rampiau a mynediad i gadeiriau olwyn. Mae'r unig gwmni tacsi yn Aberteifi sy'n darparu hyn yn codi pris llawer uwch na'r hyn y byddai car heb ei addasu yn ei godi.
- Byddai gwelliannau teithio llesol i ysgolion yn lleihau nifer y ceir ar adegau prysur.
- Sefydlu gwasanaeth bws uniongyrchol ychwanegol i Aberystwyth nad yw'n stopio mewn pentrefi.
- Ychydig iawn o drafnidiaeth gyhoeddus a dim digon i gynnal teithio gwyrdd, felly'n troi at yrru – ond mae'r ffyrdd yn ofnadwy.
- Estyn yr 20 mya ar gylchffordd Aberteifi i gynnwys y ffordd ddynesu o'r dwyrain i'r dref a bylchau eraill ar y llwybr.

**4.2.6 Cyfleusterau Cyhoeddus**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Gwella'r toiledau cyhoeddus a'r lleoedd newid hygyrch yn y dref a'r pentrefi cyfagos.

#### 4.2.7 Cymuned

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Byddai'n wych cael hyb cymunedol hygyrch, cynhwysol i bawb.
- Mae'r grwpiau Dechrau'n Deg yn yr ardal yn anhygoel; mae'r staff mor neis ac mae'n wych bod yn rhan ohonynt.
- Mae angen mwy o ffocws ar fanteision yr awyr agored, y môr ac ymarfer corff i wella llesiant pobl.
- Mae angen trefnu gwell dosbarthiadau ymarfer corff yn yr awyr agored.
- Gwella'r cyfleusterau chwaraeon a sefydlu parciau awyr agored.
- Gwella'r cyfleusterau parcio yn Nhraeth Gwbert (a elwir yn Draeth Patch hefyd). Mae'n ofynnol gwella'r cyfleusterau parcio yn Aberteifi hefyd, yn enwedig ger y llyfrgell ac ar hyd Stryd Morgan.
- Gwella'r mynediad at fuddion hamdden a thwristiaeth Afon Teifi. Gwella'r mynediad at lan yr afon yng Nghei'r Tywysog Charles. Rhoi ystyriaeth i wella'r Strand, yn ogystal â gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd yno.
- Sefydlu hybiau gwefru cerbydau trydan ar gyrion y dref ar gyfer twristiaid a phreswylwyr; gweler y cynnig ar gyfer Rhes Greenfield ar hyn o bryd. Dylid annog a chefnogi'r defnydd o e-feiciau ac e-sgwteri trwy sefydlu seilwaith addas, yn ogystal ag arwyddion cyfeillgar i ymwelwyr. Gallai'r rhain amlygu llwybrau ac iddynt bellteroedd ac anhawster amrywiol.
- Dylid darparu cymorth i'r cyhoedd feithrin ymwybyddiaeth o holl asedau'r dref trwy ailadrodd delweddau gweledol o leoliadau yn rheolaidd, a'r rheiny'n cynnwys map a labeli, a'u swyddogaeth wedi'i nodi. Byddai hyn yn adeiladu ar fenter Partneriaeth Canol y Dref, ar y cyd ag Ap y Dref, a'r gwaith o osod arwyddion cyfeirio deniadol mewn mannau allweddol megis meysydd parcio, safleoedd bysiau a choetsys, meysydd parcio archfarchnadoedd, mannau amrywiol ledled y dref, ac ar lwybrau cyhoeddus.
- Yr her fwyaf sylweddol i fywiogrwydd Aberteifi yw gwneud cynnydd mewn perthynas â chydbwyso hygyrchedd o ran cerbydau â chreu lleoedd.
- Gwnaed sawl ymdrech dros y blynyddoedd i ddod o hyd i atebion ynghylch pedestreiddio. Gallai rhai o'r cyfleoedd ailddatblygu a'r angen am hybiau cerbydau trydan helpu i ddatguddio persbectif newydd ar yr her hon. A allai argaeledd 'e-fygis' cymorthdaledig ym meysydd parcio e-hybiau helpu i annog defnydd o feysydd parcio sydd ar gyrion y dref? Ehangu gwasanaethau 'Galw am Fws Aberteifi'? Gellid ystyried amrywiadau tymhorol o ran blaenoriaethau parcio a mynediad. Mae'n hanfodol dadansoddi'r dref yn ei chyfanrwydd, a'r modd y gallai ardaloedd unigol gyfrannu at ddatrys y mater o fynediad i gerbydau a cherddwyr er budd y dref, ei busnesau a'i phreswylwyr.
- Cyflwyno mesurau diogelwch y tu allan i Ysgol Llechryd.
- Ymddengys bod gan Aberporth ymdeimlad da o gymuned. Mae llawer o ysgolion bach lleol wedi cau, gan olygu bod yn rhaid i blant fynychu ysgolion mwy ymhellach o'u cartref.
- Mae tai fforddiadwy yn ofynnol ar gyfer preswylwyr lleol a phobl ifanc.
- Mae gennym gymuned gref, groesawgar, glos iawn yn Aberteifi. Mae ein cymuned yn datblygu i fod yn fwyfwy amrywiol. Mae gennym lawer o grwpiau cymdeithasol, grwpiau celf a chrefft, ac asiantaethau gwirfoddol sy'n rhedeg grwpiau ar gyfer pobl ag anableddau i helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac ynysigrwydd.
- Mae'n bwysig annog ymgysylltiad â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.
- Mae integreiddio yn ofynnol ar gymunedau ynysig.
- Nid yw rhai mannau'n gyfeillgar iawn.
- Cryfhau Partneriaeth Canol y Dref, a nodi Hyrwyddwyr Aberteifi ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, twristiaeth a'r economi, treftadaeth, chwaraeon a'r gymuned, gan ddirprwyo'r camau gweithredu.
- Mae gan Landudoch ddigwyddiadau cymunedol rheolaidd.
- Dylai Aberteifi adeiladu ar ei digwyddiadau blynyddol presennol.
- Dylid cynnwys y preswylwyr lleol yn llawn wrth wneud penderfyniadau.

#### 4.2.8 Gweithredoedd

Cafodd y ddarpariaeth iechyd yn Aberteifi hwb enfawr yn 2019 pan agorwyd Canolfan Gofal Integredig newydd sbon o'r radd flaenaf. Mae hon yn gaffaeliad gwych i'r dref gan ei bod yn cynnwys meddygfa, practisau deintyddol (er bod prinder apwyntiadau o hyd), Uned Mân Anafiadau, nifer cynyddol o feddygon ymgynghorol yn ymweld (gan leihau'r angen i gleifion deithio i ysbytai pell i ffwrdd, e.e. daw cardiolegwyr yno o Gaerdydd). Mae ei lleoliad yn ddelfrydol gan ei bod o fewn pellter cerdded i'r prif ardaloedd preswyl a chanol y dref.

Mae cynlluniau uchelgeisiol ar y gweill i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio, sef darpariaeth cam-i-fyny/cam-i-lawr, gofal seibiant, gofal dementia, a chymorth cyffredinol i breswylwyr sy'n dymuno aros yn eu tref ac o fewn eu cymuned.

Byddai'r cyfleusterau i gyd yn agos at y Ganolfan Gofal Integredig, gan greu "pentref" a fyddai hefyd yn cynnwys crèche, tai fforddiadwy, bwytai/caffis a llwybrau cerdded yn ardal Gwlyptiroedd Mwldan ac o'u cwmpas.

Mae syniadau'n mynd rhagddynt i ddatblygu Canolfan Llesiant: hyb gweithredol, a fydd yn cael ei reoli a'i ariannu gan yr awdurdod lleol. Bydd yr holl wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn cael eu lleoli mewn un adeilad, gan alluogi gwasanaethau i rannu gwybodaeth a chydweithio mewn ffordd gynlluniedig. Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd yn amlwg bod yna ddiffyg canolfan o'r fath yn Aberteifi.

Gan weithredu ar sail yr ethos "mae pentref yn ofynnol i fagu plentyn, mae pentref yn ofynnol i gefnogi rhiant", mae gan y dref ddiddordeb personol mewn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i atal.

Annog clybiau chwaraeon i ddarparu rhai lleoedd aelodaeth, citiau a chludiant yn rhad ac am ddim, gan ddefnyddio rhieni eraill yn wirfoddolwyr. Gallai clybiau "fabwysiadu" un plentyn ym mhob grŵp blwyddyn, a fyddai'n cael ei ariannu trwy i aelodau eraill dalu ychydig mwy.

Annog grwpiau garddio cymunedol – rhannu unrhyw ffrwythau a llysiau o fewn y gymuned.


DRAGONS
WINE BAR
BT Sport
LAST ENTRY TIME
QUIET ZONE
COLLEGE ROW
FISH·CHIP
BAR
CAFE

Rhes y Coleg

### 4.2.9 Camau Gweithredu

Hygyrchedd

- Mae'n hanfodol sicrhau nad oes unrhyw fath o wahaniaethu yn gweithio yn erbyn y broses o gyflawni'r lefelau llesiant cyffredinol uchaf yn ein cymdeithas. I annog cyfranogiad llawn a rhydd, mae'n ofynnol sefydlu systemau sy'n caniatáu hygyrchedd. Weithiau, mae'r rhwystrau i hygyrchedd yn "anweledig" neu'n cael eu tanbrisio gan benderfynwyr. Rhoddir cyfleoedd ac anogaeth i aelodau Cyngor Tref Aberteifi fynychu sesiynau hyfforddi: Ymwybyddiaeth o Ddementia, Awtistiaeth, ac ati. O ganlyniad, mae rhai siopau manwerthu a chanolfannau diwylliannol yn ein tref wedi addasu eu cyfleusterau'n unol â hynny.
- Mae Anabledd Cymru wedi gwneud llawer o waith, gan addysgu masnachwyr lleol am y problemau a wynebir gan y bobl hynny yn ein cymdeithas sy'n brwydro â heriau dyddiol amrywiol. Yn anffodus, nid yw'r adeiladau hŷn sy'n lletya ein pobl fusnes annibynnol bob amser yn addasadwy i'r gadair olwyn fodern. Mae cwsmeriaid yn tueddu i ddibynnu ar ewyllys da masnachwyr i gynnal trafodion wrth ddrws y siop. Mae llwyddiant yn achos y math hwn o ddibyniaeth yn amrywiol.
- Mae ein Canolfannau Celf yn ymwybodol o anghenion ein cymuned anabl ac yn mynd ati'n rheolaidd i ddarlledu sioeau pellter cymdeithasol, dangosiadau ag isdeitlau, a ffilmiau a sioeau â disgrifiadau sain.

Teithio llesol

- Un o dasgau'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru yw annog pobl i gerdded a beicio trwy wella llwybrau a mynediad. Mae mentrau diweddar yn cynnwys gosod raciau beiciau (gyda rhai'n ymgorffori gorsafoedd atgyweirio) yng nghanol y dref, a hefyd lwybrau beicio/cerdded rhwng aneddiadau cysylltiedig a'r dref. Mae yna alw cyson am ragor o ddarpariaeth debyg, ac eir i'r afael â'r angen pa bryd bynnag y daw cyllid addas ar gael.

Trafnidiaeth

- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi buddsoddi'n helaeth mewn mannau gwefru trydan ym mhob un o'i brif feysydd parcio yng nghanol y dref. Hefyd, mae'r grŵp cymunedol, 4CG, ynghyd ag archfarchnad fawr leol, yn cynnig cyfleuster tebyg. Mae gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol pwrpasol yn tyfu ac yn datblygu mewn ymateb i alw'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae rhai cymunedau'n parhau i fod yn ynysig, heb unrhyw wasanaeth bws cyhoeddus yn bodoli. Mae dibyniaeth ar geir preifat yn anochel yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyfleusterau parcio yng nghanol y dref, sy'n cael effaith negyddol ar yr ardal ac yn achosi i'r amgylchedd ddioddef. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu gan fysiau cwmnïau ar redir gan y gymuned a'r gwasanaeth bysiau cenedlaethol, fel ei gilydd. Mae yna botensial i ddatblygu gorsaf fysiau Sgwâr Finch.

Cyfleusterau cyhoeddus

- Mae toriadau'r Awdurdod Lleol wedi effeithio ar y ddarpariaeth o ran cyfleusterau cyhoeddus yng nghanol y dref, ond gyda'r defnydd o grant tir y cyhoedd, mae gwaith yn mynd rhagddo i ailagor un set o gyfleusterau yn Lôn Siawnsri, sef yng nghraidd ardal fanwerthu'r dref.

Cymuned

- Mae nifer o grwpiau cymunedol llwyddiannus yn gweithredu'n dda yn yr ardal, gan feithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'r mwyafrif o bobl. Gallai ffocws y gwelliant fod ar y cyfathrebu rhwng grwpiau, gan wella cynhwysiant ac annog agwedd gadarnhaol mewn perthynas â phopeth sy'n digwydd yn ein cymuned i leihau'r negyddoldeb hwnnw sy'n amlwg ar adegau. Yn rhy aml, mae preswylwyr, ar gam, yn nodi absenoldeb gwasanaeth neu gyfleuster penodol dim ond oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

Llwybrau beicio

- Mae llwybrau beicio'n brin oherwydd cynllun daearyddol ein ffyrdd, ond mae eu sefydlu lle bo modd yn gam ymlaen. Mae addysgu modurwyr i barchu beicwyr ar y ffyrdd yn allweddol.

Hamdden

- Mae gan Aberteifi ddau sefydliad diwylliannol o fri (Theatr Mwldan a Chanolfan Byd Bychan), lle cynhelir rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, sioeau a gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Castell a Neuadd y Dref, fel ei gilydd, yn darparu lleoliadau ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol a masnachol.

Chwaraeon

- Mae'r cyfleusterau yn nhref Aberteifi a'r cyffiniau yn niferus ac amrywiol: yn Ardal Chwarae'r Brenin George V, caeau Maes Radley a Pharc Sgrialu Aberteifi, ond yn anffodus caeodd pwll nofio'r dref ei ddrysau yn chwarter cyntaf 2024. Mae'r cyhoedd yn cefnogi grŵp brwdfrydig o wirfoddolwyr sy'n chwilio am atebion a ffyrdd o adfer y cyfleuster gwerthfawr hwn ar gyfer plant a phobl o bob oed, a oedd, tan yn ddiweddar, wedi elwa o'r ddarpariaeth.

Twristiaeth

- Mae digon o lety yn y dref a'r ardaloedd ar y cyrion ar gyfer ymwelwyr â Gorllewin Cymru, ond weithiau gall y galw fod yn fwy na'r cyflenwad. Mae yna fannau parcio wedi'u neilltuo ar gyfer cerbydau gwersylla ar Lefel Uchaf maes parcio Stryd y Cei ger Afon Teifi, ond gofynnir am well arwyddion yn aml. Mae ymwelwyr yn llawn gwerthfawrogiad o gymeriad arbennig y dref a'r ardaloedd cyfagos, sy'n gwneud eu profiad ohoni mor unigryw. Heb os, mae'r dref yn dref Gymreig, ond ar yr un pryd mae'n un sy'n edrych tuag at allan.

Llwybrau cerdded

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r llwybrau cerdded yng Nghorsydd Teifi, ac mae i aneddiadau cysylltiedig lwybrau troed rhannol hygyrch i ganol y dref.

### 4.2.10 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| we-01 | Rhaid i gynigion sicrhau, trwy ymgorffori egwyddorion dylunio 'cynhwysol', fod mynediad ar gael i bob defnyddiwr. Dylai ymgeiswyr amlygu yn eu cais sut y rhoddwyd ystyriaeth i fynediad i bob defnyddiwr, a pha fesurau sydd wedi'u hymgorffori (e.e. ar gyfer cadeiriau olwyn, cadeiriau gwthio, a nam ar y golwg). | Polisi DM09 y CDLl: Dylunio a Symud. |
| we-02 | Ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf 1 a 2 Polisi LU22 y CDLl, cefnogir cynigion i wella a chynyddu'r ddarpariaeth, lle bo galw, ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant effeithiol ac amlddefnydd. | LIC TAN16: Chwaraeon, Hamdden, a Pholisi LU22 y CDLl: Darpariaeth Gymunedol. |
| we-03 | Cefnogir cynigion ar gyfer llwybrau cerdded a beicio newydd neu welliannau i rwydweithiau presennol (gan gynnwys arwyddion priodol). Rhaid i bob datblygiad newydd ystyried cyflwyno seilwaith teithio llesol newydd neu ehangiad sy'n gymesur â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol, a Pholisi DM04 y CDLl: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol Polisi DM05 y CDLl: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio. |

# Creu Lleoedd



**4.3.1 Trosolwg**

Mae Creu Lleoedd yn ddull cyfun o gynllunio, dylunio a rheoli mannau cyhoeddus sy'n benodol i'r ardal honno, gan fanteisio ar asedau naturiol, ysbrydoliaeth a photensial. Dan gyfyngiadau symud Covid-19, gosodwyd estyniadau i'r palmentydd yng nghanol tref Aberteifi er mwyn annog pobl i fynd i siopau a busnesau gan gadw pellter cymdeithasol. O dan orchymyn traffig mwy diweddar, mae'r rhain bellach wedi dod yn estyniadau parhaol. Fodd bynnag, gan mai gosodiadau dros dro oedd y rhai gwreiddiol, mae'n ofynnol eu hamnewid bellach am balmentydd mwy parhaol – gan efallai blannu llwyni ar gyfer lliw/diddordeb a choed i ddarparu cysgod, i ddenu rhagor o letygarwch awyr agored, ac i liniaru gwedd y Stryd Fawr.

**4.3.2 Darpariaeth Gymunedol**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Byddai buddsoddi mewn gwaith glanhau strydoedd ar hyd y Stryd Fawr a'i strydoedd ochr, yn ogystal â systemau gwaredu gwastraff ar gyfer busnesau, yn gwella gwedd y dref.
- Rhaid mynd i'r afael â'r ddarpariaeth parcio yn Aberteifi. Byddai lleihau'r costau parcio yn helpu i gymryd y pwysau oddi ar y Stryd Fawr.
- Mae rhai busnesau newydd uchel eu safon wedi cael eu creu. Nid yw'r meysydd parcio yn annog pobl i ymweld ag Aberteifi chwaith.
- Mae llawer o dwristiaid yn cwyno am y diffyg cyfleusterau parcio ar gyfer cerbydau mwy ger y ffordd osgoi, ac yn awgrymu bod angen gwell mannau gollwng a chodi ar gyfer coetsys.

**4.3.3 Mannau Gwyrdd**

- Buddsoddi yn yr ardaloedd chwarae yng ngogledd Aberteifi – Maes-glas, Dôl y Dintir.
- Gwella cyfleuster y Parc Sgrialu.
- Darparu gwell man ac ardal chwarae ar gyfer Netpool.
- Gwella'r cyfleusterau rygbi a phêl-droed.
- Darparu campfa gymunedol awyr agored.
- Sefydlu cyfleuster trac pwmpio yn Netpool.

**4.3.4 Cyfleoedd Datblygu**

Mae'r awgrymiadau ar sail polisi yn cynnwys:

Glan afon Pentwd

- Datblygu'r ardal hon i gynnwys maes parcio, mannau gwefru cerbydau trydan, llety glan afon, siopau bach ac adloniant dan do.
- Mae hwn yn safle tir llwyd ond nid oes yna statws adfywio i'r ardal bellach, felly dim ond defnyddiau llai bregus y gellir rhoi ystyriaeth iddynt. Dylid archwilio'r posibilrwydd o faes parcio a theithio, maes parcio a cherdded, a hybiau gwefru cerbydau trydan yn y lleoliad hwn, ynghyd â chyfleusterau manwerthu/chaffi ar lan yr afon, yn enwedig o ystyried agosrwydd gweledol a ffisegol y castell ar hyd y llwybr cyhoeddus a thros y bont.
- Mae cyfran sylweddol o'r safle ar orlifdir, a fyddai'n atal gwaith datblygu bregus iawn (sef pob eiddo preswyl, gan gynnwys meysydd carafanau ac adeiladau cyhoeddus megis ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden). Mae'n bosibl y byddai modd ailwerthu'r safle i ddibenion cyflogaeth a storio. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn annog gwella ardal glan yr afon yn rhan o unrhyw waith ailddefnyddio.

Rhes y Coleg


- Lledu'r palmant, gwneud y rhes yn un unffordd a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr fel y gellir cael mynediad i Aberteifi isaf a maes parcio Teras Greenfield.

Ardal y Castell a Chei'r Tywysog Charles:

- Cwblhau llwybr yr afon i faes parcio Stryd y Cei, gan gysylltu â gweddill yr aber hyd at Draeth Gwbert/Patch.

Safle'r hen feddygfa ym Mhen-dre

- Posibilrwydd ar gyfer maes parcio arhosiad byr.
- Mae mynediad diogel a deniadol i gerddwyr i'r Stryd Fawr o ardaloedd isaf y dref a'r meysydd parcio yn cael ei beryglu yn Rhes y Coleg a Stryd y Cei. O ganlyniad i ailwampio Neuadd y Dref, gallai palmentydd ehangach a mynediad amgen i gerddwyr ac iddo arwyddion da wella'r sefyllfa yn y byrdymor i'r tymor canolig. Gallai llwybrau cerddwyr i faes parcio Stryd y Cei o Gei'r Tywysog Charles a thrwy Lôn Eben (sydd dan fygythiad ffisegol ar hyn o bryd) fod yn ddewis arall yn lle llwybr Stryd y Cei. Mae dod o hyd i ateb tymor hwy i her y gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau yn Aberteifi yn dal yn anodd, a hynny er gwaethaf astudiaethau blaenorol o opsiynau ar gyfer llif traffig cyfeiriadol/blaenoriaethau symud ac arbrawf 'parthau diogel' Covid-19.
- Mae yna gyfle i gymryd golwg gyfannol ar barcio a symud, o ystyried y pwyslais cynyddol ar Deithio Llesol, cerbydau e-gymorth, a'r defnydd gofalus o bolisi prisio i hyrwyddo arhosiad byr â therfyn amser mewn lleoliadau dynodedig yn agos at y Stryd Fawr.




Blaenoriaethau creu lleoedd Aberteifi

Ardal Theatr Mwldan

- Pedestreiddio'r ffordd ddynesu a'i gwahanu oddi wrth draffig moduron.
- Mae cynllun wrthi'n cael ei gwblhau i wneud rhan o Heol y Baddondy yn system unffordd newydd er mwyn creu troedffordd newydd ger Theatr Mwldan ac iddi balmant botymog a chwrb isel i gynyddu hygyrchedd.

Safle'r Ysbyty Coffa

- Gosod cysylltiadau trydanol i gerbydau gwersylla mewn cyfleusterau parcio ar lan yr afon ger mynedfa'r ffordd osgoi; datblygu tai ymyl ffordd sy'n agos at ganol y dref ar gyfer pobl ag anableddau; adfer adeilad Nash; cael gwared ar adeiladau i gael golwg ehangach o graidd Eglwys y Santes Fair; sefydlu gwesty bwtîc a chyfleuster hamdden.
- Mae cynigion datblygu ffurfiol yr ymgynghorwyd arnynt eisoes yn ymgorffori'r rhan fwyaf o'r syniadau hyn. Dylai rôl y safle mewn perthynas â pharcio yn gyffredinol ac unrhyw gysylltiadau trydanol ar gyfer cerbydau gwersylla sicrhau bod defnyddiau o'r fath yn cael eu lliniaru â phlanhigion, ac ati, ac nad ydynt yn amharu ar leoliad glan afon adeilad adferedig Nash ac Eglwys y Santes Fair.
- Gwella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ar y Strand a ffurfio mannau deniadol defnyddiadwy y tu ôl i'r amddiffynfeydd.
- Rhaid datrys materion perchnogaeth a rheolaeth tir cyn y gellir cyflwyno bywiogrwydd 'porth' uchel ei safon i'r ardal hon, elfen a fydd yn annog ffryntiadau gweithredol i sicrhau gwell profiad i gerddwyr o amgylch y Castell os bydd parcio ar gael ar lan afon Pentwd/yn hen ardal y Mart.

Traeth Gwbert/Patch

- Gwella'r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon dŵr, angori a pharcio. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sy'n deillio o ddynodiad ecolegol ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Afon Teifi wrth bennu pa un a fydd uchelgeisiau ar gyfer hamdden neu gynhyrchu ynni, er enghraifft, yn addas ar Afon Teifi ai peidio.

Marchnad Neuadd y Dref

- Ni ellir diystyru pwysigrwydd cyfadeilad Neuadd y Dref yng nghanol tref Aberteifi o ran bod yn ganolbwynt cymunedol ac yn fecanwaith cymorth i fasnachwyr/fusnesau lleol. Mae hefyd yn chwarae rhan mewn gwella cydraddoldeb mynediad o waelod Aberteifi i'r Stryd Fawr.
- Dylai Parc Busnes Teifi ehangu i gynnwys amrywiaeth ehangach o fusnesau, megis datblygwyr a chwmnïau technoleg.

Y Farchnad Gwartheg

- Ddim yn weithredol mwyach. Cyfle i ddatblygu defnyddiau amgen.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Llety ar lan yr afon a siopau bach.
- Ale fowlio ac adloniant dan do.
- Datblygu defnydd amgen ar gyfer hen Ysbyty Aberteifi.
- Cysylltiadau trydanol ar gyfer cerbydau gwersylla a lleoedd parcio ar lan yr afon ger mynedfa'r ffordd osgoi.
- Tai ymyl ffordd yn agos at ganol y dref ar gyfer pobl ag anableddau.
- Adfer yr adeilad Nash cyntaf erioed.
- Symud adeiladau i ddatgelu craidd Eglwys y Santes Fair o'r gefnffordd.
- Gwesty bwtîc a chyfleuster hamdden.
- Gwella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd yr afon heb gael effaith negyddol ar nodweddion glan yr afon, a gwneud ardal y Strand yn ofod defnyddiadwy y tu ôl i'r amddiffynfeydd.
- Mae'n rhaid i'r gwaith o godi tai ymateb i anghenion lleol a bod yn sensitif i'r bensaernïaeth gyffredin, ond gan hefyd ganiatáu ar gyfer arloesedd a gwaith dylunio beiddgar. Yr elfen fwyaf hanfodol, fodd bynnag, yw ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Atal gorddatblygu.
- Canolbwyntio'r gwaith datblygu tai ar addasu adeiladau presennol a chodi tai fforddiadwy ar gyfer prynwyr tro cyntaf.
- Mae yna angen am dai annibynnol a addaswyd i roi annibyniaeth i bobl ag anableddau a chyfle iddynt gael eu cynnwys yn y gymdeithas.
- Buddsoddi mewn eiddo rhent addas i'r diben o amgylch Aberteifi a'r cyffiniau.
- Datblygu tai cymdeithasol o safon dda.
- Rhoi ffocws ar eco-dai.
- Dylai'r datblygiad yng Ngwbert fod yn ofalus ac yn ystyriol.
- Ailddatblygu glan ddeheuol Afon Teifi.
- Dylai unrhyw waith datblygu roi ystyriaeth i ddiwylliant, tirwedd naturiol ac amgylchedd Aberteifi, ynghyd ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn y dref.
- Annog a chefnogi gwaith hunanadeiladu.

**4.3.5 Gwelliannau i'r Stryd Fawr**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Buddsoddi mewn unedau gwag ar hyd y Stryd Fawr.
- Arallgyfeirio'r siopau presennol – dylid annog cynnyrch lleol.
- Mae'r stondinau marchnad yn Neuadd y Dref yn atyniad gwych i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Mae yna botensial ar gyfer mwy o gymorth i annog busnesau newydd i gymryd stondin.
- Canolfan lewyrchus ac ynddi ddigonedd o siopau annibynnol. Fodd bynnag, dylid annog mwy o amrywiaeth i ddiwallu anghenion y gymuned.
- Ailbwrpasu gofod manwerthu gwag ar gyfer siopau dros dro neu egin fusnesau.

### 4.3.6 Camau Gweithredu

Darpariaeth gymunedol

- Mae glanhau'r strydoedd yn flaenoriaeth nid yn unig yn ystod misoedd prysuraf yr haf ond trwy gydol y flwyddyn oherwydd presenoldeb cyson ymwelwyr, ac er mwyn y preswylwyr. Byddai cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn golygu datblygu grwpiau gwirfoddol rheolaidd, gyda chynghorwyr tref yn cydlynu ac arwain pob grŵp. Gwaith ymarferol y grwpiau hyn fyddai casglu sbwriel, chwynnu a phlannu blodau. Mae angen i fusnesau fynd i'r afael â'u gwaith gwaredu sbwriel eu hunain, a chwynnu a glanhau wrth ffryntiadau siopau i wella golwg y dref. I'w weithredu y mae'r broses o noddi biniau gwastraff cyhoeddus ac arddangosiadau blodau.

Mannau gwyrdd

- Mae angen monitro, gwella a chynnal asesiadau risg cyson yn achos y mannau gwyrdd presennol. Nodwyd safleoedd ychwanegol i'w datblygu, er enghraifft cae Maes-glas i fod yn fan chwarae; Netpool; border gwyrdd ar ffiniau caeau chwarae y Brenin George V; Maes Radley – ystyried y posibilrwydd o ddatblygu meysydd hyfforddi rygbi a phêl-droed; Gwella cyfleuster y Parc Sgrialu; datblygu trac pwmpio. Ardal gwlyptir Mwldan i gynnwys llwybr pren, mannau gwylio, mannau eistedd, llwybrau cerdded cŵn ac elfennau bioamrywiaeth, ynghyd â gwybodaeth.

Datblygu

- Mae glan afon Pentwd (sef y farchnad wartheg gynt) bellach yn gartref i fusnesau gweithredol, a hynny cyn belled â mynedfa'r parc bywyd gwyllt. Mae'n bosibl y bydd yna gyfleoedd yn y dyfodol i ddatblygu'r safle hwn trwy archwilio syniadau megis meysydd parcio, unedau manwerthu bach, caffis ar lan yr afon, a mannau gwefru trydan i annog manwerthu cymysg yn yr ardal. Mae'r ochr hon i'r afon yn rhoi golygfa wych o'r afon a'r castell, elfen sy'n cael ei diystyru ar brydiau.

Gwelliannau i'r Stryd Fawr

- Mae gwaith curadu parhaus yn digwydd yn y canol i leihau nifer yr unedau gwag. Mae'r farchnad dan do yn Neuadd y Dref wedi ailagor yn ddiweddar ar ôl gwaith adnewyddu helaeth. Mae pob stondin yn cael ei defnyddio ac yn ymgorffori busnes dros dro.

Tai

- Bydd Cyngor Tref Aberteifi yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau i fynd i'r afael â'r anghenion tai presennol. Lle bo hynny'n briodol, bydd hyn yn cynnwys edrych ar gyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau gwag yng nghanol y dref. Bydd y Cyngor Tref a'r gymuned ynghlwm wrth y gwaith o adolygu safleoedd y CDLl (Cynllun Datblygu Lleol) a'r dyraniadau tai yn y dyfodol ar gyfer Aberteifi a'r ardal gyfagos.

### 4.3.7 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| pl-01 | Cefnogir cynigion sy'n darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 11: Cysylltedd Cenedlaethol; a, Pholisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol. |



Adeiladau preswyl ar Heol y Gogledd

# Treftadaeth a Diwylliant




**4.4 Treftadaeth a Diwylliant**

Datblygodd tref Aberteifi fel tref castell canoloesol, ac roedd, o bosibl, yn gysylltiedig ag anheddiad Cristnogol cynnar yn Llandudoch. Saif y dref yn bennaf i'r gogledd o Afon Teifi ac mae'n meddu ar y bont olaf dros yr afon cyn y môr, sydd 3 milltir i'r Gogledd-Orllewin.

Mae ynddi nifer o adeiladau rhestredig dynodedig, gan gynnwys Pont Aberteifi a Chastell Aberteifi. Mae adeiladau dinesig a chymunedol allweddol, megis Hen Neuadd y Sir, capeli ac eglwysi, tafarndai a banciau, yn ymgodi trwy'r ardal fasnachol, tra bo'r eglwys blwyf, Eglwys y Santes Fair, yn tra-arglwyddiaethu ar yr ochr ddwyreiniol. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Aberteifi yn 1969, a diwygiwyd ei ffin yn 1989 ac eto yn 2001.

Yr adeiladau rhestredig Gradd I a Gradd II* yn Aberteifi:

- Castell Aberteifi (Gradd I)
- Avondale, tŷ (Gradd II*)
- Capel y Bedyddwyr Bethania (Gradd II*)
- Bryn-y-Môr, plasty bach gwledig (Gradd II*)
- Pont Aberteifi (Gradd II*)
- Castle Green House (Gradd II*)
- Rhif 7 Heol Eglwys Fair, Dyfed (Gradd II*)
- Eglwys Blwyf y Santes Fair (Gradd II*)
- Rheiliau, gatiau a phileri'r gatiau yng Nghapel y Bedyddwyr Bethania (Gradd II*)
- Neuadd y Dref a'r Marchnadoedd (Gradd II*)
- Hen Neuadd y Sir (Gradd II*)



**4.4.1 Trosolwg**

Mae cyfadeilad celfyddydau a sinema Theatr Mwldan a Chanolfan Byd Bychan ill dau yn lleoliadau celf bywiog cydategol, ac maent yn cyflwyno ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau haf ar y cyd â Chastell Aberteifi. Dethlir treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Aberteifi ar bob cyfle, ac mae'r Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n gwau trwy ein hanes. Mae digwyddiadau traddodiadol yn rhan hanfodol o galendr y dref, ac mae grwpiau cymunedol yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i'w llwyfannu a'u datblygu.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Mae diwylliant a threftadaeth yn dda yn Aberteifi ond mae gofyn parhau i sicrhau ymgysylltiad y bobl leol. Rydym yn ffodus bod gennym fynediad at ddiwylliant a threftadaeth cyfoethog, eang ac amrywiol a hithau'n dref fach wledig.
- Mae digwyddiadau'n cadw Aberteifi'n fywiog a chyffrous, ac yn denu ymwelwyr.

**4.4.2 Y Gymraeg**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Dylid hyrwyddo enwau Cymraeg ar gyfer ffryntiadau siopau, busnesau a strydoedd.
- Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo'r iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol.
- Mae adnewyddu'r castell wedi galluogi Aberteifi i ddatgelu ei threftadaeth gyfoethog.

**4.4.3 Cyd-destun Hanesyddol**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig yn ased i'r ardal. Mae'r hanes a'r Eisteddfod yn gwneud Aberteifi yn arbennig. Mae'n bwysig bod hunaniaeth y gymuned a'r gwaith o hyrwyddo asedau twristiaeth yn gytbwys.
- Mae angen diogelu, cadw a chynnal treftadaeth bensaernïol Aberteifi yn ofalus.
- Mae'r theatr yn ased diwylliannol rhagorol.
- Gallai'r castell, ac atyniadau eraill, elwa o leoedd parcio di-dâl.
- Gyda dim ond adnoddau cyfyngedig, mae cymuned fechan o bobl leol yn ceisio cynnal yr hyn sydd gennym.
- Mae'r hanes a'r dreftadaeth gyfoethog, sydd wedi'u diogelu'n dda trwy dirnodau megis Castell Aberteifi, Abaty Llandudoch a Chastell Cilgerran, yn ffynonellau a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer addysg leol.
- Ers agor y castell, cynhaliwyd digwyddiadau rhyfeddol. Mae sgyrsiau hanes gan Glenn Johnson yn boblogaidd iawn. Ceir llawer o arddangosfeydd celf a chrefft sy'n cynnwys creadigaethau gan bobl leol. Mae gan ein theatr ystod mor amrywiol o gynyrchiadau yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â digwyddiadau cerddoriaeth byd; mae'r clwb ffilmiau ar nos Sul yn dangos ffilmiau o bedwar ban byd a chynyrchiadau theatr sy'n cael eu ffrydio'n fyw.
- Mae gan Aberteifi hanes diddorol y gallwn ni i gyd ei groesawu a dysgu ohono. Mae digwyddiadau megis Dydd Sadwrn Barlys a digwyddiadau hanesyddol eraill yn wych am arddangos hanes Aberteifi.
- Gellid gosod celf stryd ledled y dref i arddangos nodweddion hanesyddol unigryw a niferus Aberteifi – porthladd o bwys, allforiwr brics Aberteifi, canolfan fasnachu, ffermio, a hanes canoloesol sy'n cynnwys man geni un o ddigwyddiadau diwylliannol mwyaf Ewrop, yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Dylid hyrwyddo'r dreftadaeth amaethyddol a morol yng nghanol y dref.

**4.4.4 Camau Gweithredu**

Y Gymraeg
- Mae gan Gyngor Tref Aberteifi bolisi Iaith Gymraeg, sy'n sicrhau bod pob arwydd a darn o lenyddiaeth yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Dylai pob gwasanaeth gael ei ddarparu yn y ddwy iaith, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer gofal plant a gofal yr henoed, sef marchnad sy'n tyfu.

Cyd-destun hanesyddol
- Mae angen tynnu sylw at orffennol diwydiannol Aberteifi, megis Gwaith Brics Aberteifi a oedd wedi'i leoli yn y Baddondy ger Afon Mwldan. Gellid cynnwys byrddau dehongli a gosodiadau celf yn rhan o daith a llwybr cerdded. Mae'r defnydd o godau QR wedi ehangu'r offeryn posibl hwn, a gallai Cronfa Treftadaeth y Loteri fod yn ffynhonnell ariannu.

Cymeriad
- Parhau i ddiogelu cymeriad hanesyddol ac ysbryd canol y dref, ac annog perchnogion i atgyweirio a chynnal adeiladau mewn modd sensitif. Yn unol ag argymhellion Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth, a thrwy bartneriaeth â sefydliadau eraill, dylai Aberteifi ddatblygu a mabwysiadu gwybodaeth ganllaw newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Lle bynnag y bo modd, bydd aelodau'r gymuned leol yn parhau i fod yn rhan o'r broses o wneud sylwadau ac arfarnu cynigion datblygu yn yr ardal gadwraeth, ac fe'u hanogir i barhau i ddwyn unrhyw faterion i sylw'r Cyngor.

Diwylliant ac Adeiladau
- Datblygu rhaglen o weithgareddau sy'n hybu'r Gymraeg a llenyddiaeth, barddoniaeth a cherddoriaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys mentrau i ailbwrpasu adeiladau hanesyddol gwag o bwys ac i integreiddio digwyddiadau sy'n hyrwyddo diwylliant, treftadaeth bensaernïol, a hanesion cudd yr ardal gyfagos.

**4.4.5 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau**

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.policy.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| hc-01 | Cefnogir cynigion sy'n cyfrannu at y defnydd o'r Gymraeg ac sy'n cefnogi'r nod llesiant ynghylch y Gymraeg yn Ffynnu. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 Canlyniad 4: Cymru lle mae pobl yn byw mewn mannau lle bo'r Gymraeg yn ffynnu.<br>Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion 2024-2029. |
| hc-02 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040: Pholisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf<br>Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel<br>Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol. |



Palet deunyddiau Aberteifi

# Yr Economi


BIG BITE
AFFOGATO
SORBET
WAFFLES
PANCAKES
SMOOTHIES
BRIOCHE
BLACK LION HOTEL
HOTEL
oriel 7
TATTOOISTS
body piercing
Unffordd
One way
CLOSED

**4.5.1 Trosolwg**

Cafodd tref a chymuned Aberteifi ergyd greulon ym mis Hydref 2002 pan ddiswyddwyd 325 o staff yn dilyn cau ffatri Dewhirst. Roedd y ffatri'n cynhyrchu jîns merched ar gyfer un o siopau cadwyn y stryd fawr, ac o ganlyniad i'w chau, dyblodd cyfraddau diweithdra'r dref dros nos. Ddegawd yn ddiweddarach, crëwyd cwmni gweithgynhyrchu a dynnodd ar arbenigedd carfan o gyn-weithwyr Dewhirst, gweithwyr a oedd yn fedrus am greu jîns â llaw, ac erbyn hyn mae'r cwmni'n meddu ar statws byd-eang a'i lyfrau archebion yn llawn dop. Stori lwyddiant go iawn, ac un enghraifft yn unig o'r busnesau annibynnol lleol hynny sy'n ffynnu, ac sy'n helpu tref Aberteifi i lwyddo unwaith eto.

Gan ein bod yn dref borthladd, mae masnachu yn rhan o'n DNA. Roedd masnachwyr yn prynu, yn gwerthu ac yn dod â ffyniant yn eu sgil. Roedd gwneuthurwyr yn adeiladu llongau. Deuai ffermwyr i'r farchnad. Roedd pob un ohonynt wedi helpu i greu ein hanes cymunedol. Mae'n bosibl bod y dreftadaeth hon o fasnachu a gwneud wedi helpu'r dref i'w hailddyfeisio ei hun. Wrth i'r stryd fawr grebachu mewn mannau eraill, mae Aberteifi yn gyrru ymlaen. Heddiw mae yna egni tawel yno, egni sy'n cael ei danio gan adnodd pwysicaf y dref – ei phobl.

**4.5.2 Yr Economi**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid sefydlu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i helpu i ddenu gweithwyr proffesiynol ifanc.
- Byddai ardrethi busnes deniadol yn annog mwy o egin fusnesau a mentrau.
- Byddai siopau manwerthu ar hen safle Sainsbury's yn gwella economi'r dref gan y byddai pobl yn siopa yng nghanol y dref yn hytrach na theithio ymhellach.
- Yn ogystal ag amaethyddiaeth, twristiaeth a'r ychydig gyflogwyr mwy, dylid cyflwyno swyddi cynaliadwy i'r economi leol.

**4.5.3 Busnesau Lleol**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Dylid creu a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth arloesol mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg, a dylid annog egin fusnesau bach.
- Mae yna lawer o swyddi tymhorol, cyflog isel yn yr ardal.
- Lletygarwch ac amaethyddiaeth fu'r ddau brif sector cyflogaeth erioed, ond erbyn hyn mae yna lawer o swyddi yn y diwydiant gofalu hefyd.
- Mae ardrethi busnes uchel wedi arwain at gau nifer o fusnesau. Byddai cymorth ar gyfer gwasanaethau, megis pecynnau ffôn a rhyngrwyd, yn helpu, yn enwedig yn achos y sawl sy'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys ffermwyr, sy'n aml yn cael eu heithrio rhag gwneud cais am dariffau â chyfraddau is oherwydd eu hasedau.
- Mae'r ffaith bod banciau'n cau yn adlewyrchu cyflwr busnesau yn y mwyafrif o leoedd yn y DU. Mae economi Aberteifi yn dioddef oherwydd natur dymhorol busnesau, ac mae ar y dref angen cyflogwyr gydol y flwyddyn i sicrhau sefydlogrwydd. Er bod yna ddigon o fusnesau hunangyflogedig da i'w cael, nid yw pob un yn ennill digon i'w cynnal eu hunain.
- Busnesau bach lleol da ond dim digon o gyflogwyr mawr (20-50). Nid yw hyn yn rhoi fawr o gyfle ar gyfer hyfforddiant.
- Mae'r niferoedd o siopau bwyd a choffi da yn denu pobl. Mae angen i'r dref ddenu mathau eraill o siopau a busnesau annibynnol. Gellir adeiladu ar gymysgedd busnes presennol Aberteifi, a hynny gyda mentrau i gefnogi ac annog pobl iau i ddechrau busnesau.
- Dylai stryd fawr Aberteifi hyrwyddo busnesau annibynnol cyn y cadwyni rhyngwladol. Byddai hyn yn annog pobl i brynu o ffynonellau lleol, ac yn helpu i greu economi gylchol.
- Mae'n bosibl y byddai busnesau newydd yn cael eu denu pe câi egin fusnesau manwerthu bach eu creu a phetai'r rhent yn isel.


**4.5.4 Twristiaeth**

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Mae Aberteifi'n gymuned lewyrchus, gyda thwristiaeth yn chwarae rhan fawr.
- Byddai cyflwyno amrywiaeth ehangach o fusnesau a sefydliadau yn helpu i ddenu mwy o ymwelwyr.
- Byddai darparu cyfleusterau llety cost isel yng nghanol y dref yn cynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Darparu lle parcio dros nos a chysylltiadau trydanol i gerbydau gwersylla symudol.

**4.5.5 Hyrwyddo**

- Marchnata asedau ac unigrywiaeth Aberteifi
- Defnyddio WiFi ac Apiau Hyrwyddo'r dref – byddai cynlluniau cysylltiedig yn cynhyrchu dadansoddeg i'w rhannu â busnesau yn y dref ac yn helpu i nodi cyfleoedd yn y farchnad.




Blaenoriaethau economaidd Aberteifi

#### 4.5.6 Camau Gweithredu

Economi

- Mae datblygiadau diweddar mewn TG yn rhoi data amhrisiadwy i siopau a busnesau ynghylch nifer yr ymwelwyr, nifer yr ymwelwyr newydd, oriau busnes brig – elfennau sydd oll yn helpu i reoli busnes yn y ffordd orau posibl.
- Dyhead ar gyfer y dref fyddai estyn y ffiniau o ran cydweithrediad yn y dyfodol rhwng Banciau'r Stryd Fawr, gyda phob un ohonynt wedi'i leoli mewn un uned hygyrch i ddarparu pwynt cyswllt â'r cyhoedd. Mae'r ffordd newydd hon o weithredu yn hanfodol ar gyfer trefi llai y mae'r broses o gau banciau'r stryd fawr yn effeithio arnynt. Mae cadw'r ddarpariaeth addysg bellach yn Aberteifi yn allweddol i gadw pobl ifanc, ac i gadw sgiliau yn ein heconomi leol.
- Mae yna ddirfawr angen i Ystad Ddiwydiannol Parc Teifi gael ei datblygu ymhellach, a hynny gan ddefnyddio'r gofod a'r tir sy'n bwydo'n uniongyrchol o'r ffyrdd a'r seilwaith sydd eisoes yno.

Busnes lleol

- Mae angen mwy o ffocws, a hwnnw'n ffocws parhaus, ar egin fusnesau; swyddi i ymadawyr yr ysgol leol; Coleg Ceredigion/ Ysgol Uwchradd Aberteifi – annog datblygu Marchnad Ieuenctid.
- Mae'r ardal eisoes yn darparu gwaith tymhorol, sy'n waith incwm isel yn draddodiadol. I fynd i'r afael â hyn, mae angen i ni ganolbwyntio ar feithrin cyflogaeth hirdymor, manteisio ar gyfleoedd i weithio o bell, a chaniatáu i fusnesau ymgysylltu â chwmnïau byd-eang sy'n gweithredu'n lleol.
- Mae angen i hyfforddiant ar gyfer crefftau hanfodol, e.e. adeiladu, plymio, trydanol, yr henoed a gofal plant barhau i fod yn ffocws i fodloni'r galw yn y gymuned.

Twristiaeth

- Er mwyn annog pobl i aros yn y dref, mae angen hysbysebu i ymwelwyr fod cysylltiadau trydanol dros nos ar gael i gerbydau gwersylla.
- Mae angen datblygu'r economi gyda'r nos ymhellach i sicrhau bod ymwelwyr yn y dref ar ôl 6.00pm. Gellir symud ymlaen â hyn gyda chymysgedd ehangach o ddigwyddiadau gyda'r hwyr y tu allan i'r tymor, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â sector lletygarwch y dref.

Hyrwyddo

- Mae diweddariadau misol partneriaethau canol y dref yn cynnwys digwyddiadau, ystadegau, cyllid, grantiau a chyfleoedd am gymorth. Anfonir cylchlythyrau chwarterol at ymwelwyr ag Aberteifi sydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer y Wi-Fi, cylchlythyrau sy'n tynnu sylw at fusnesau Aberteifi a'u hyrwyddiadau a'u digwyddiadau ar-lein.

#### 4.5.7 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| ec-01 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel, a, Pholisi LU13 y CDLl: Newid Defnydd mewn Perthynas â Thir neu Adeiladau Cyflogaeth Presennol Polisi LU21 y CDLl: Newid Defnydd o Ddefnydd Manwerthu Presennol. |
| ec-02 | Cefnogir cynigion ar gyfer datblygiad newydd, ailddatblygu neu resymoli defnyddiau B1, B2 a B8 ledled y safle. | Polisi LU11 y CDLl: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd. |



1



2

1. Busnesau lleol ar y Stryd Fawr
2. Busnes lleol ym Mhwll-hai

# Yr Amgylchedd



#### 4.6.1 Trosolwg

Mae tref Aberteifi a'r cyffiniau yn anghysbell ar y naill law, ac yn ddyfeisgar ar y llaw arall. Mae angen i ni fanteisio i'r eithaf ar ein hasedau naturiol: y tir, yr afon, yr aber, y môr: y cyfan mewn helaethrwydd ar drothwy ein drws. Mae Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor Tref yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae'n darparu ffocws i wella ein hamgylchedd ym mhob ffordd ymarferol bosibl.

#### 4.6.2 Yr Amgylchedd Morol a Llifogydd

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu system amddiffyn wrth yr afon i osgoi'r llifogydd blynyddol.
- Mae'r traethau o amgylch Aberteifi yn ddeniadol a chanddynt gyfleusterau da. Mae'r toiledau cyhoeddus yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cael defnydd da.
- Mae yna ddigonedd o weithgarwch ar yr afon ac mae'n gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Rhaid i ni warchod bioamrywiaeth cynefinoedd yr afon. Mae'r llygredd o byllau slyri a chemegion fferm yn effeithio ar y stociau pysgod ac yn bygwth hyfywedd yr afonydd.
- Clirio'r malurion ar hyd yr afon rhwng y bont a Pizzatipi er mwyn caniatáu i gychod symud ar hyd ardal y pontŵn a'r cei – cael gwared ar rwbel a sbwriel yn hytrach na charthu'r afon.
- Mae angen digwyddiad casglu sbwriel mawr ar Afon Teifi. Gallai digwyddiad i feithrin ymwybyddiaeth o'r broblem hon gael ei gynnal ar y dŵr, h.y. mewn canŵod a chychod.

#### 4.6.3 Yr Amgylchedd Naturiol

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Manteisio ar Fanc-y-Warren, Crug Mawr
- Rhaid diogelu'r amgylchedd naturiol rhag gorddatblygiad.
- Mae gwaredu gwastraff yn amhriodol mewn ardaloedd gwledig yn ddinistriol i fywyd gwyllt.
- Mae tirwedd naturiol Aberteifi yn denu llawer o ymwelwyr ac o fudd i breswylwyr lleol.
- Dylid datblygu mentrau gwyrdd, megis plannu blodau gwyllt a choed ar dir comin, ymylon a chylchfannau.
- Byddai cyflwyno coed ffrwythau a chynnyrch bwytadwy cymunedol, fel y mae Machynlleth wedi llwyddo i'w wneud, o fudd i lesiant y gymuned leol.

#### 4.6.4 Cynaliadwyedd

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod gan bob tŷ newydd systemau ynni gwyrdd a dŵr llwyd.
- Mae gan lawer o bobl ddiddordeb mewn gofalu am yr amgylchedd. Amgylcheddau glân, organig a diblastig. Gallai Aberteifi wneud hyn yn flaenoriaeth a'i ddefnyddio fel arf marchnata.
- Archwilio dichonoldeb ynni'r llanw. Byddai ffocws ar brosiectau lleol adnewyddadwy bach yn caniatáu mwy o reolaeth dros ein costau ynni.

#### 4.6.5 Camau Gweithredu

Cynlluniau Amgylcheddol Mawr

- Cyngor Tref Aberteifi i barhau i ymgynghori ac ymgysylltu ag CNC a Dŵr Cymru ynghylch prosiectau datblygu cynlluniau mawr yng nghanol y dref. Mae cynllun amddiffyn rhag llifogydd CNC i fod i ddechrau yn 2025. Mae Dŵr Cymru yn uwchraddio gwaith trin y dref, a fydd yn gwella ansawdd y dŵr lleol yn ein hafon a'n haber. Bydd y ddau gynllun yn elwa o fewnbwn y gymuned a chyfathrebu rheolaidd fel bod gan bob parti a phreswylwyr lleol wybodaeth gyfredol.

Amgylchedd morol

- Mae'r gwaith o dynnu sbwriel o'r afon yn achlysurol; mae angen mynd i'r afael â hyn. Byddai cyfleoedd i greu sianel ddofn ar gyfer traffig yr afon yn gwella'r cysylltedd rhwng yr aber a chanol y dref, gan annog elfen arall ar dwristiaeth. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu dichonoldeb ar gyfer gwelyau cyrs gwlyptir i fyny'r afon i annog y broses o waredu ffosffadau a nitradau o'r afon.

Amgylchedd naturiol

- Perllannau gwyllt i'w hau yn Netpool. Prosesau i ddad-ddofi ardaloedd i gael eu hannog. Oherwydd bod yna ordanysgrifio yn achos yr un safle rhandir sydd ar gael, mae angen nodi ardaloedd i'w datblygu yn y dref ar gyfer gerddi llysiau.

Cynaliadwyedd

- Annog systemau SDCau ar gyfer pob adeilad lle bo modd, ynghyd ag ar gyfer datblygiadau newydd ac ar y strydoedd. Bellach, anogir y defnydd o baneli solar, pympiau gwres o'r aer ac ynni gwynt mewn deddfau cynllunio.

#### 4.6.6 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol. policy.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| en-01 | Cefnogir datblygiadau sy'n darparu rhandiroedd neu fannau tyfu cymunedol newydd neu estyniadau i rai sy'n bodoli eisoes lle mae ganddynt seilwaith gwyrdd pwysig neu werth cymunedol. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 Polisi 9: Rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd<br>LIC TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored<br>Polisi LU22 y CDLl: Darpariaeth Gymunedol Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored<br>Polisi DM10 y CDLl: Dylunio a Thirweddu. |
| en-02 | Cefnogir cynigion sy'n cynnwys SDCau. | Polisi DM13 y CDLl: Systemau Draenio Cynaliadwy<br>LIC TAN 12: Dylunio, a, Chanllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy (SDCau). |
| en-03 | Cefnogir datblygiadau sy'n cynnwys mesurau i gyflawni allyriadau carbon isel trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040: Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig<br>Polisi LU25 y CDLl: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy. |



Pont Aberteifi

Allwedd:

Safleoedd a nodir yn y Cynllun Bro

— Ffin yr anheddiad

— Ffin y safle

1. Glan Afon Pentwd
   Cyfle datblygu defnydd cymysg
2. Rhes y Coleg
   Gwelliannau i'r palmant
3. Castell Aberteifi
   Ased hanesyddol
4. Cei'r Tywysog Charles
   Gwell mynediad/cysylltiadau
5. Yr Hen Feddygfa
   Parcio a gofod amwynder
6. Marchnad Neuadd y Dref
   Ased hanesyddol
7. Theatr Mwldan
   Ased diwylliannol
8. Bron-y-Dre
   Cysylltiadau teithio llesol
9. Parc Teifi
   Ehangu'r parc busnes
10. Safle'r Ysbyty Coffa
    Y gwaith ailddatblygu i gynnwys defnyddiau newydd
11. Y Strand
    Amddiffynfeydd rhag llifogydd a gwelliannau
12. Maes Parcio Stryd y Cei
    Gwell mynediad i'r afon
13. Gofal Ychwanegol Maes Mwldan
    Gwell cysylltiadau â'r cartref gofal
14. Gorsaf Fysiau Sgwâr Finch
    Gwelliannau
15. Llandudoch
    Cwblhau'r llwybrau teithio llesol i'r pentref cyfagos
16. Pen-parc
    Gwell cysylltiadau â'r pentref cyfagos
17. Llechryd
    Gwell cysylltiadau â'r pentref cyfagos
18. Gwbert
    Gwell cysylltiadau â'r pentref cyfagos
19. Traeth Gwbert/Patch
    Gwell cyfleusterau/ cysylltiadau

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol

Dyraniadau Tai

A. Tir ar Fferm Steepside, Heol Gwbert, Aberteifi – H0201
B. Tir yn Fferm Steepside, Heol Gwbert, Aberteifi – H0202
C. Caeau Pen-top, Aberteifi – H0203
D. Tir ger Roby Villa, Spring Gardens, Llandudoch – H0204

Dyraniadau Cyflogaeth


E. Parc Teifi - E0201
F. Ystad Ddiwydiannol Pentwd – E0202

Dyraniadau Defnydd Cymysg

G. Pwll-hai - M0201

Themâu Cynllun Bro

- Llesiant
- Creu Lleoedd
- Treftadaeth a Diwylliant
- Economi
- Yr Amgylchedd




Cynllun Bro Aberteifi, 2024

